

Adolygiad Annibynnol  
o Drefniadau Cyllido  
Addysg Uwch a  
Chyllid Myfyrwyr yng  
Nghymru

Cais am dystiolaeth

ISBN digidol 978 1 4734 2505 7  
© Hawlfraint y Goron  
WG23697

# **Cynnwys**

<b>Cefndir</b>	<b>2</b>
<b>Nodyn gan yr Athro Ian Diamond</b>	<b>3</b>
<b>Cais am dystiolaeth</b>	<b>4</b>
<b>Manylion yr atebydd</b>	<b>5</b>
<b>Holiadur</b>	<b>6</b>
<b>Atodiad A: Cylch gorchwyl y Panel Adolygu</b>	<b>19</b>
<b>Atodiad B: Aelodau'r Panel Adolygu</b>	<b>22</b>

## Cefndir

Ar 18 Tachwedd 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei fod wedi gofyn i'r Athro Syr Ian Diamond, Is-Ganghellor presennol Prifysgol Aberdein, gadeirio Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru. Ar 19 Chwefror 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Ddatganiad Ysgrifenedig yn cyhoeddi y byddai Panel Adolygu arbenigol yn cael ei greu i gefnogi'r Athro Diamond yn y gwaith hwn ynghyd â chylch gorchwyl yr adolygiad. Mae'r cylch gorchwyl ar gael yn Atodiad 1 (ewch i dudalen 19). Mae manylion aelodau'r Panel Adolygu yn cael eu cynnwys yn Atodiad B (ewch i dudalen 22).

Dechreuodd yr Adolygiad ym mis Ebrill 2014. Yn ystod hydref 2015, bydd yr Athro Diamond yn llunio crynodeb ffeithiol o'r dystiolaeth y mae ef a'i dîm adolygu wedi'i chasglu fel rhan o'u gwaith. Caiff ei adroddiad terfynol, gan gynnwys argymhellion terfynol, ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn mis Medi 2016.

Bydd yr argymhellion terfynol yn adlewyrchu'r angen i sicrhau system addysg uwch o'r radd flaenaf yng Nghymru sy'n cefnogi swyddi a thwf. Yn ogystal â hynny, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Adolygiad yw:

- sicrhau bod mwy o bobl yn cael y cyfle i fanteisio ar addysg uwch – a bod angen sicrhau bod hynny'n un o amcanion craidd unrhyw system yn y dyfodol, a bod y system ei hun yn flaengar ac yn deg
- sicrhau bod yr angen am sgiliau yng Nghymru yn cael ei ddiwallu
- cryfhau'r ddarpariaeth ran-amser ac ôl-radd yng Nghymru
- sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir.

Bydd angen i'r Athro Diamond a'r Panel Adolygu gynnal adolygiad cynhwysfawr a llunio adroddiad terfynol sy'n rhoi cyngor clir ac argymhellion y mae'r gost o'u gweithredu wedi'i hamcangyfrif, ar gyfer cyllido'r sector addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd yn rhaid i'r argymhellion yn yr adroddiad terfynol fod yn ymarferol, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.

Mae'r galw am dystiolaeth yn rhan hanfodol o'r broses adolygu a'r ddadl ynghylch cyllido addysg uwch. Byddai'r Panel Adolygu'n croesawu safbwyntiau a thystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Bydd eich ymateb yn rhan bwysig o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer adroddiad terfynol ac argymhellion yr Athro Diamond ar gyfer dyfodol cyllido addysg uwch yng Nghymru.

Mae gwybodaeth am y trefniadau cymorth a chyllido presennol ar gael yn:

[www.hefcw.ac.uk/publications/circulars/circulars\\_cy.aspx](http://www.hefcw.ac.uk/publications/circulars/circulars_cy.aspx)

[www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk/](http://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk/)

[www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk/ymarferwyr.aspx](http://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk/ymarferwyr.aspx)

Os hoffech chi gael gair â rhywun ynghylch y galw am dystiolaeth, cysylltwch drwy:

e-bost: [HEReview@wales.gsi.gov.uk](mailto:HEReview@wales.gsi.gov.uk)

## Nodyn gan yr Athro Syr Ian Diamond



Gorau arf yw arf dysg, ac mae gwledydd sy'n buddsoddi mewn addysg uwch yn elwa o'r sgiliau lefel uwch y bydd graddedigion yn eu cynnig i'r economi ac o'r gwaith ymchwil sy'n gallu effeithio ar dwf yn ogystal ag ar les dinasyddion. Ar ben hynny, mae addysg uwch yn trawsnewid bywydau ac mae'n gallu gwneud cyfraniad mawr at leihau anghydraddoldeb drwy fod yn gyfrwng pwysig i ysgogi symudedd cymdeithasol. Yng Nghymru, mae addysg uwch yn elfen bwysig yn ymdrech Llywodraeth Cymru i sicrhau swyddi a thwf a chymdeithas sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, iechyd a lles ei holl ddinasyddion.

Ac eto yn yr hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni, mae'n bwysig bod pob ceiniog yn cael ei gwario'n ofalus ac roeddwn yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i mi gadeirio Adolygiad o Addysg Uwch. Ein nod yw cynnig argymhellion arloesol a fydd yn ateb y weledigaeth uchelgeisiol a ddisgrifir uchod, ond a fydd yn gynaliadwy yn ariannol i'r pwrs cyhoeddus ac a fydd yn sicrhau system addysg uwch lwyddiannus ledled Cymru.

Mae'n hanfodol ein bod ni, fel grŵp, yn cael clywed safbwyntiau cynifer o randdeiliaid â phosibl. Rydym am sicrhau ein bod yn ystyried eich holl safbwyntiau wrth i ni lunio ein hargymhellion. Felly, byddwn yn annog pawb i ystyried ac ymateb i'r cwestiynau yn y galw am dystiolaeth, naill ai fel unigolion neu fel rhan o ymateb gan sefydliad.

Mae'r grŵp adolygu'n edrych ymlaen yn fawr iawn at ddarllen yr hyn sydd gennych i'w ddweud. Diolch i chi ymlaen llaw am gymryd rhan ac am helpu i siapio dyfodol cyllido addysg uwch yng Nghymru.

A handwritten signature in black ink, which appears to read 'Ian Diamond'.

**Yr Athro Syr Ian Diamond**

# Cais am dystiolaeth

## Pwrpas

Pwrpas galw am dystiolaeth yw casglu eich safbwyntiau ac unrhyw dystiolaeth ategol a fydd yn llywio'r Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru.

## Cyfarwyddiadau

Fe'ch gwahoddir i lenwi'r holiadur amgaeedig. Yn dibynnu ar eich maes diddordeb, efallai yr hoffech chi ymateb i **un neu ragor** o'r cwestiynau.

Gall unigolyn lenwi'r holiadur neu gellir ei lenwi ar ran sefydliad. Rhowch eich safbwyntiau ar gyfer pob cwestiwn rydych chi am ei ateb. Lle y bo'n bosibl, rhowch resymau dros eich atebion er mwyn helpu'r Athro Diamond a'r Panel Adolygu i ddeall eich safbwyntiau'n llawn.

Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn llenwi'r adran manylion atebydd. Bydd hyn o gymorth wrth i ni ddadansoddi'r galw am dystiolaeth.

Mae modd llenwi'r holiadur ar ffurf electronig neu ar gopi papur. Dylid dychwelyd holiaduron wedi'u llenwi at:

Alison Bryant  
Tîm Adolygu Cyllido Addysg Uwch  
Yr Is-adran Addysg Uwch  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Rhadbost NAT 8910  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3BR

Neu dros e-bost at: [HEReview@wales.gsi.gov.uk](mailto:HEReview@wales.gsi.gov.uk)

## **Anfonwch eich holiadur wedi'i lenwi erbyn 27 Chwefror 2015 fan bellaf.**

Mae modd i chi gynnwys gyda'ch ymateb unrhyw wybodaeth ychwanegol neu ddolenni i dystiolaeth ac ymchwil sydd ar gael a oedd yn sail i'ch safbwyntiau. Cofiwch gyflwyno'r rhain gyda'ch holiadur. Mae lle ar ddiwedd y ddogfen hon i chi gofnodi unrhyw eitemau ychwanegol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr holiadur galw am dystiolaeth, cysylltwch â'r tîm adolygu drwy:

e-bost: [HEReview@wales.gsi.gov.uk](mailto:HEReview@wales.gsi.gov.uk)

## Manylion yr atebydd

I helpu gyda'n dadansoddiad, rhowch wybod i ni pwy lenwodd yr holiadur hwn.

Enw	Michelle Matheron
-----	-------------------

A ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad?

Rwy'n ymateb fel unigolyn [ ]

Rwy'n ymateb ar ran sefydliad [ ]

### Manylion cyswllt (nid oes raid i chi eu rhoi)

Teitl swydd (lle y bo'n berthnasol)	Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus
Enw'r sefydliad (lle y bo'n berthnasol)	Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Cyfeiriad cyswllt	18 Heol y Tollty, Caerdydd, CF10 1AP
cyfeiriad e-bost	Michelle.Matheron@open.ac.uk

Os bydd unrhyw gwestiynau am eich ymateb, a ydych yn fodlon i aelod o'r tîm adolygu gysylltu â chi? Ydw [ X ] Nac ydw [ ]

### Os ydych yn ymateb fel unigolyn, a yw'r safbwyntiau hyn yn rhai:

myfyriwr addysg uwch ar hyn o bryd? [ ]

cyn fyfyrwr addysg uwch? [ ]

rhywun sy'n ystyried cofrestru ar gwrs addysg uwch yng Nghymru? [ ]

neu rywle arall yn y DU? [ ]

aelod o staff dysgu neu staff cymorth yn y sector addysg uwch? [ ]

aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb? [ ]

Arall: rhowch fanylion

--

### Os ydych yn fyfyrwr addysg uwch ar hyn o bryd neu'n gyn fyfyrwr:

A ydych wedi cael cymorth ariannol i fyfyrwyr i astudio yng Nghymru? [ ]

A ydych wedi cael cymorth ariannol i fyfyrwyr i astudio yn rhywle arall yn y

DU? [ ]

### Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o'ch sefydliad?

Sector preifat [ ] Sector cyhoeddus [ ] Trydydd sector [ ]

Arall: rhowch fanylion

Prifysgol
-----------

### Os yw'ch sefydliad yn gwmni/cyflogwr:

a yw wedi'i leoli yng Nghymru? [ ] a yw wedi'i leoli rhywle arall yn y DU? [ ]

a yw'n cyflogi graddedigion? [ ] a yw'n noddi myfyrwyr addysg uwch? [ ]

Rhowch fanylion math o gategori sefydliad/sector busnes:

--

## Holiadur

### **C1. I ba raddau y mae trefniadau cymorth/cyllid myfyrwyr (grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr) yn diwallu anghenion myfyrwyr addysg uwch, yn gymorth i gyflwyno darpariaeth addysg uwch o safon ac yn rhoi gwerth am arian?**

Bydd gan y Panel Adolygu ddi-ddordeb mewn clywed am gryfderau a manteision y trefniadau presennol yn ogystal ag unrhyw wendidau neu broblemau.

Yn dda iawn [ ]    Yn dda [ ]    Ddim yn dda iawn [X]    Ddim yn gwybod [ ]

Rhowch reswm neu resymau dros eich ateb ynghyd â thystiolaeth ategol, os yw ar gael.

Mae addysg uwch (AU) yn hanfodol i economi a chymdeithas fodern. Ei phrif nod yw creu, datblygu a lledaenu gwybodaeth a dealltwriaeth ddynol, sydd o fudd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a deallusol i gymdeithas ac unigolion. Fel sector, system, set o sefydliadau unigol a chymuned o academyddion a myfyrwyr mae AU yn fuddsoddiad cyhoeddus cadarn ac angenrheidiol. Drwy ymchwil, arloesedd, entrepreneuriaeth a chydweithredu mae'n denu symiau sylweddol o incwm nad yw'n arian cyhoeddus ac, yn ei dro, mae'n gyfrwng twf economaidd yn y gymdeithas ehangach. Mae buddsoddiad cyhoeddus mewn AU yn cefnogi swyddogaethau amrywiol AU gan gynnwys addysgu, ymchwil, a gweithgareddau fel trosglwyddo gwybodaeth, ehangu mynediad a chanlyniadau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd eraill sy'n deillio'n briodol o AU fel set o arferion ar wahân. Yr her yw sicrhau'r cydbwysedd gorau ar draws y gweithgareddau amrywiol hyn ac, felly, y defnydd gorau o fuddsoddiad cyhoeddus. Nid yw'r trefniadau presennol yng Nghymru yn cynnig cydbwysedd effeithiol na gwerth am arian.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan "Dylai addysg uwch fod ar gael i bawb sydd â'r potensial i elwa beth bynnag eu hoed, rhyw, modd a lefel o astudio, gwlad eu tarddiad a'u cefndir<sup>1</sup>." Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn gryf o blaid y fath weledigaeth ac, yn arbennig, y dull o weithredu pob oedran sy'n gysylltiedig â hi sydd, yn ein barn ni, wrth wraidd unrhyw system cyllido AU a chyllid myfyrwyr deg a chynhyrchiol yn y pen draw.

Y Brifysgol Agored yng Nghymru yw prif ddarparwr addysg uwch ran-amser israddedig yng Nghymru – mae ganddi tua 8,000 o fyfyrwyr sy'n astudio dros 10,000 o fodiwlau. Gyda'i gilydd, mae'r myfyrwyr hyn yn cyfateb i 3,585 o 'fyfyrwyr' cyfwerth ag amser llawn. Yn 2012/13 roedd gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru fwy o israddedigion a oedd yn byw yng Nghymru na phob un ond dwy o'r prifysgolion eraill yng Nghymru. Mae'r Brifysgol yn unigryw o ran ei maint a'i chyrhaeddiad. Hi yw'r unig sefydliad AU a ariennir gan bedair llywodraeth y Deyrnas Unedig ac mae ei myfyrwyr a leolir yng Nghymru a'i harianwyr yn cael budd o hynny. Mae myfyrwyr Y Brifysgol Agored yng

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, *Datganiad polisi ar addysg uwch* (Mehefin 2013). Ar gael yn <http://gov.wales/docs/dcells/publications/130611-statement-cy.pdf>



Nghymru yn cynrychioli tua 5% o'r Brifysgol ac eto dderbyniant y buddiannau sy'n deillio o'r buddsoddiad cyffredinol a wneir ar draws y sefydliad cyfan.

Profir buddiannau gweithgareddau dysgu ac addysgu'r Brifysgol Agored yng Nghymru, ynghyd â'r rheini sy'n deillio o weithgareddau eraill ac effeithiau maint a natur unigryw'r sefydliad mewn termau cymdeithasol.

Amcangyfrifodd astudiaeth gan London Economics fod yr effaith economaidd sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Brifysgol Agored yng Nghymru gwerth tua £137miliwn yn 2012/13 ar ôl ystyried y gost i'r trysorlys. Roedd grant CCAUC i'r Brifysgol yn y flwyddyn honno yn £11miliwn.

Mae darpariaeth AU ran-amser yn cyfrannu at ffyniant economaidd drwy greu cyfleoedd i unigolion wella eu sgiliau a chefnogi cyflogwyr a'r farchnad lafur ehangach drwy gyfrannu at gynyddu sgiliau yn gronol. Mae pwysigrwydd dysgu gydol oes a datblygu'r gweithlu yn dod yn fwy arwyddocaol yng nghyd-destun y newidiadau demograffig a welir yn y blynyddoedd nesaf. Mae'r rhan fwyaf o weithlu 2020au Cymru eisoes mewn gwaith<sup>2</sup> a bydd angen opsiynau dysgu hyblyg arno er mwyn cynnal y lefelau uchel o sgiliau sydd eu hangen i gyflawni twf economaidd – ni allwn ddibynnu ar yr hyn a fydd yn nifer lai o raddedigion newydd o raglenni amser llawn. Yn wir, dywed Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Sgiliau "Os na fydd y sgiliau sydd gan unigolion yn parhau i ddatblygu gyda'r economi, neu os na fyddant yn cael eu defnyddio'n llawn tra byddant yn gweithio, byddant mewn perygl o weld gwerth eu sgiliau yn gostwng dros amser. Gallai'r risg hwn gyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt symud ymlaen i swyddi sydd ar lefel sgiliau uwch, neu barhau i weithio, neu ddychwelyd i weithio<sup>3</sup>."

Mae darpariaeth ran-amser hefyd yn asiant cyfiawnder cymdeithasol, gan gyflwyno AU i'r gynulleidfa ehangaf bosibl a thrwy hynny gynyddu symudedd cymdeithasol. Mae'n cyfrannu at ddatblygu cymunedau ac mae'n chwarae rhan bwysig yn swyddogaethau dinesig a diwylliannol ehangach addysg uwch.

Fodd bynnag, ni chredwn fod y system gyllido bresennol yn diwallu anghenion myfyrwyr rhan-amser presennol na darpar fyfyrwyr rhan-amser yng Nghymru yn ddigonol nac yn briodol.

Fel pob buddsoddiad cyhoeddus, nid yw cyllideb addysg uwch yn ddi-bendraw a gwnaeth y newidiadau i gyllid a chymorth AU israddedig amser llawn yn 2012 bennu faint o gyllid a oedd yn weddill i gefnogi AU ran-amser. Cydnabyddir yn eang i'r grant ffioedd amser llawn i israddedigion arwain at weld cyfran o'r hyn a oedd yn ffrwd cyllido Dysgu ac Addysgu Sefydliadol CCAUC yn dilyn myfyrwyr sy'n dewis astudio mewn rhannau eraill o'r DU. Yn llai hysbys, ond hefyd yn bwysig, mae'r polisi grant ffioedd i israddedigion amser llawn wedi arwain at drosglwyddiad net o adnoddau o israddedigion rhan-amser i israddedigion amser llawn, wedi'i hwyluso'n rhannol gan y

<sup>2</sup> Nododd Adolygiad Sgiliau Leitch a luniwyd ar ran Llywodraeth y DU yn 2006 "Today, over 70 per cent of our 2020 workforce have already completed their compulsory education." Leitch Review of Skills (2006) t.1. Ar gael yn [http://www.delni.gov.uk/leitch\\_finalreport051206f11-2.pdf](http://www.delni.gov.uk/leitch_finalreport051206f11-2.pdf)

<sup>3</sup> Datganiad polisi ar sgiliau Llywodraeth Cymru (2014), t.17. Ar gael yn <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140129-policy-statement-on-skills-cy.pdf>

broes o ddileu ffrydiau cyllido strategaeth CCAUC. Nodwyd hyn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei hadroddiad ar gyllid addysg uwch yn 2013<sup>4</sup>. Gwnaeth yr arian hwn ategu gwaith a dargedwyd i ehangu mynediad a datblygu sgiliau drwy gysylltu â chyflogwyr. O ran sefydliadau sydd hefyd yn cynnig darpariaeth israddedig amser llawn, mae'r cynnydd mewn incwm ffioedd o'r lefelau uwch o ffioedd a grantiau ffioedd yn gwneud iawn am ddileu eu cyllid strategaeth. Fodd bynnag, cafodd y cyllid hwn ei ddileu ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser hefyd lle nad oes fersiwn cyfatebol o ffioedd uwch neu grantiau ffioedd yn bodoli i ddarparu incwm arall neu incwm ychwanegol. Mae'r penderfyniadau polisi hyn wedi cyfrannu at leihau nifer y myfyrwyr rhan-amser israddedig ar draws y sector.

Cafodd rhai newidiadau eu cyflwyno o fewn y system gyllido ran-amser yn 2014 – yn bennaf cyflwyno benthyciadau ar gyfer israddedigion rhan-amser sy'n bodloni meini prawf penodol. Fodd bynnag, ni chredwn fod y rhain yn cynrychioli trefniant effeithiol na chadarn o ran cyllido AU ran-amser yng Nghymru yn y dyfodol. Mae angen setliad mwy eang, parhaol a theg er mwyn sicrhau bod gan AU ran-amser ddyfodol cynaliadwy ac er mwyn sicrhau bod system AU wirioneddol hygyrch ar gael yng Nghymru. Ategwyd hyn gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn ei adroddiad ar Gyllido Addysg Uwch, lle dywedodd "y byddai'r sector addysg uwch rhan-amser (y myfyrwyr a'r sefydliadau) yn elwa o gyllid a chyfeiriad polisi clir." Hefyd, galwodd am becyn cyllido strategol a chyfannol ar gyfer AU ran-amser<sup>5</sup>.

Mae canlyniadau'r gyfundrefn ffioedd a chyllid ôl 2012 yn hynod aciwt i'r Brifysgol Agored, oherwydd nid oes ganddi ddarpariaeth amgen amser llawn sy'n cynhyrchu incwm ychwanegol ar ffurf lefelau ffioedd uwch. Mae hyn yn golygu bod ein gallu i gyflawni'r gwaith penodol ar, er enghraifft, ehangu mynediad a chyda chyflogwyr ac undebau llafur - rhai o brif ddibenion yr hen gyllid strategaeth - yn fwy ansicr.

Nododd llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i CCAUC ar gyfer 2013/14 fod AU ran-amser yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a gorchwyliodd CCAUC i gefnogi'r sector rhan-amser ar yr un lefelau fwy neu lai am nad oedd y Llywodraeth am weld cynnydd sylweddol mewn lefelau ffioedd rhan-amser<sup>6</sup>. Gwnaethom groesawu'r datganiad hwn. Mae angen i gyllid sefydliadol Dysgu ac Addysgu barhau ar gyfer darpariaeth ran-amser er mwyn cadw ffioedd yn isel ar gyfer cyrsiau rhan-amser. Yn llythyr cylch gwaith y Gweinidog ar gyfer 2014/15 cafodd AU ran-amser ei henwi'n faes blaenoriaeth unwaith eto ond ni soniwyd am lefelau ffioedd<sup>7</sup> yn benodol.

Gall sefydliadau sy'n cynnig darpariaeth israddedig amser llawn yn bennaf

<sup>4</sup> Swyddfa Archwilio Cymru, Cyllid Addysg Uwch (2013), t.12. Ar gael yn [http://www.wao.gov.uk/system/files/publications/HE\\_Finances\\_Welsh\\_2013.pdf](http://www.wao.gov.uk/system/files/publications/HE_Finances_Welsh_2013.pdf)

<sup>5</sup> Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cyllido Addysg Uwch* (Mai 2014) Ar gael yn <http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD9755-R%20-%20Report%20of%20the%20Finance%20Committee%20-%20Higher%20Education%20Funding-03062014-256437/cr-ld9755-r-e-Cymraeg.pdf>

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, *Higher Education Funding Council for Wales remit letter 2013-14*, ar gael yn [http://www.hefcw.ac.uk/documents/about\\_he\\_in\\_wales/wag\\_priorities\\_and\\_policies/2013-14%20Remit%20Letter.pdf](http://www.hefcw.ac.uk/documents/about_he_in_wales/wag_priorities_and_policies/2013-14%20Remit%20Letter.pdf)

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, *Higher Education Funding Council for Wales remit letter 2014-15*, ar gael yn [http://www.hefcw.ac.uk/documents/about\\_he\\_in\\_wales/wag\\_priorities\\_and\\_policies/2014-15%20Remit%20Letter.pdf](http://www.hefcw.ac.uk/documents/about_he_in_wales/wag_priorities_and_policies/2014-15%20Remit%20Letter.pdf)

ddewis croesgymorthdalau darpariaeth ran-amser, ond nid oes fawr ddim cymhelliant, os o gwbl, iddynt wneud hyn o ystyried, hyd yn oed gyda'r grant Dysgu ac Addysgu CCAUC sefydliadol sy'n parhau i fodoli ar gyfer darpariaeth ran-amser, na fydd yr incwm pro-rata ar gyfer darpariaeth ran-amser yn cyfateb i'r £9k y flwyddyn i fyfyrwr israddedig amser llawn. Mae hyn yn ffactor sy'n cyfrannu at ddirywiad yr arlwy rhan-amser cyffredinol yng Nghymru ar lefel sector. Gan mai dim ond darpariaeth ran-amser a gynigir gan Y Brifysgol Agored nid oes cyfle i groesgymorthdalau o incwm uwch sy'n deillio o ddarpariaeth amser llawn.

Rhaid i unrhyw system gyllido yn y dyfodol roi'r un parch a'r un buddsoddiad cyhoeddus i astudiaethau amser llawn a rhan-amser, gan ei datblygu gan roi sylw priodol i anghenion myfyrwyr amser llawn a rhan-amser o'r cychwyn. Ni ddylai astudiaethau rhan-amser fod yn ôl-ystyriaeth nac yn ychwanegiad os ydym am ddatblygu system cyllido addysg uwch sy'n addas at y diben.

Dim ond yn 2014 y daeth y trefniadau cyllid / cymorth newydd ar gyfer astudiaethau rhan-amser i rym, gan ddileu'r grant ffioedd a chyflwyno benthyciadau i israddedigion rhan-amser cymwys. Tra bod lefelau cofrestru AU cychwynnol ar gyfer myfyrwyr newydd a gyfrifwyd yn ôl CALI yn gymharol sefydlog o hyd, mae llai o fyfyrwyr yn astudio mewn gwirionedd. Rhaid aros i weld sut y bydd y newid hwn yn effeithio ar niferoedd myfyrwyr rhan-amser a chyfraddau cwblhau yn y tymor hwy. Ar lefel sector, bu dirywiad mewn niferoedd rhan-amser. Elfen o hyn yw bod y dirywiad mewn niferoedd cyffredinol yn fwy na'r dirywiad mewn lefelau CALI sy'n astudio'n rhan-amser. Mae'r newid tuag at astudio ar sail cymhwyster yn hytrach nag astudio ar sail modiwlau, a'r gofyniad i astudio ar o leiaf 25% o ddwysedd er mwyn cael benthyciad, wedi cyfrannu at y dirywiad hwn ymhellach. Mae hyn yn debygol o fod yn rhwystr i rai darpar fyfyrwyr rhan-amser, yn enwedig myfyrwyr ehangu mynediad.

Gall ymwybyddiaeth o'r benthyciadau sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser a'r dymuniad i osgoi mynd i ddyled hefyd fod yn cyfrannu at unrhyw ostyngiad canfyddedig yn y galw am ddarpariaeth ran-amser. Mae myfyrwyr rhan-amser, y mae llawer ohonynt yn gweithio ac efallai â theuluoedd ac ymrwymadau eraill gan gynnwys morgeisi, yn fwy tebygol o fod am osgoi mynd i ddyled ar y cyfan na phobl ifanc 18 oed ac, felly, maent yn fwy amharod i drefnu benthyciad. Mae arolwg a gomisiynwyd gan Y Brifysgol Agored yn dangos bod dros hanner (54%) pobl Cymru sy'n ystyried astudio'n rhan amser ar lefel Addysg Uwch yn ystod y pum mlynedd nesaf yn dweud na fydden nhw'n gyfforddus yn benthyc arian ar gyfer addysg uwch, lle mai dim ond 29% o ddarpar fyfyrwyr llawn-amser na fyddai'n gyfforddus yn benthyc arian<sup>8</sup>. Petai telerau ad-dalu yn cael eu deall yn well gan ddarpar fyfyrwyr rhan-amser gallai'r galw gynyddu. Yn yr un modd, gall diffyg ymwybyddiaeth o fenthyciadau ar gyfer astudiaethau rhan-amser effeithio ar alw. Mewn astudiaeth olrhain a gomisiynwyd gan Y Brifysgol Agored, dengys y canlyniadau nad yw pedwar o bob pum darpar fyfyrwr rhan-amser yn Lloegr, y mae pob un wedi dweud bod ganddynt ddiddordeb mewn astudio'n

<sup>8</sup> Open University Tracking Study, Conquest Research (Rhagfyr 2011 – Rhagfyr 2014)

rhan-amser ar lefel AU yn y pum mlynedd nesaf, yn ymwybodol bod benthyciadau ar gael i astudio'n rhan-amser<sup>9</sup>. Bydd data ar gyfer darpar fyfyrwyr yng Nghymru ar gael o'r un astudiaeth yn hwyrach eleni. Petai mwy o ddarpar fyfyrwyr aeddfed yn gwybod am argaeledd benthyciadau i astudio'n rhan-amser, ymddengys yn rhesymol tybio y gallai fod mwy o alw.

Ers ehangu addysg uwch yn y 1990au, nodwyd yn gyffredinol fod y gwahaniaeth rhwng astudiaethau israddedig amser llawn a rhan-amser wedi dod yn llai amlwg. Mae hyn wedi digwydd o ganlyniad i'r niferoedd mawr o fyfyrwyr amser llawn sy'n gweithio ac, i raddau llai, y myfyrwyr rhan-amser y mae eu llwyth astudio yn debyg i swm cyfatebol amser llawn.

Fodd bynnag, mae'r disgrifiad hwn yn dod yn llai ystyrllon o'i ddadansoddi'n agosach. Mae'r rhan helaeth o fyfyrwyr rhan-amser yn hŷn ac eisoes yn gweithio (neu'n chwilio am waith) ac mae ganddynt ymrwymïadau ariannol a theuluol sylweddol. Fel y dywed Callender 'part-time students fit their studies around their jobs and domestic commitments and see themselves as workers who study. By contrast, full-timers fit their jobs around their studies and see themselves as students who work.' Aiff Callender ymlaen i ddweud bod cysyniadau o risg ac – i rai – osgoi mynd i ddyled yn pwysu'n drymach ar fyfyrwyr rhan-amser (a hefyd ar gyflogwyr sydd am noddi cyflogeion i astudio ar lefel AU). Yn gyffredinol, caiff ffactorau macro-economaidd fwy o effaith ar benderfyniadau buddsoddi unigol o ran AU rhan-amser, gan gynnwys barnu costau cyfleoedd<sup>10</sup>.

Mae'r rhain yn agweddau cyd-destunol a pherthnasol pwysig ar farchnadoedd myfyrwyr AU rhan-amser ac mae angen eu hystyried yn ofalus wrth ddylunio a gweithredu systemau ffioedd a chyllid. Mae nodweddion unigryw marchnadoedd a dysgwyr rhan-amser, a'r elfennau sy'n eu llywio, yn tynnu sylw at wendid dim ond dylunio cyfundrefn ffioedd a chyllid sy'n 'gweddu' i farchnadoedd israddedigion amser llawn ar sail y sawl sy'n gadael yr ysgol ac yna ei rhoi ar waith, ar sail pro-rata, yng nghyd-destun gwahanol iawn grwpiau cleientiaid sy'n astudio neu sydd am astudio'n rhan-amser.

Ffactor arall sydd wedi cyfrannu at ddirywiad marchnadoedd israddedigion rhan-amser yw'r cyfyngiadau o ran cymwysterau cyfatebol ac is (CCI). Mae'r ffaith nad oedd myfyrwyr CCI yn Lloegr yn gymwys i ddefnyddio (ar gyfer eu sefydliadau) hen grant sefydliadol Dysgu ac Addysgu CCAULI ar ôl 2008, ac yn dilyn hynny y ffaith nad oeddent yn gymwys i gael benthyciad ffioedd (o 2012), wedi cyfrannu at y lleihad yn nifer y myfyrwyr rhan-amser. Mae'r ffaith bod y cyfyngiadau o ran CCI yn dyddio (ar un ffurf) o 2008 yn egluro'r cyfnod hwy o ddirywiad mewn niferoedd rhan-amser yn Lloegr – hynny yw, dechreuodd cyn y newidiadau i ffioedd a chyllid yn 2012. Mae cyflwyniad mwy diweddar benthyciadau ffioedd i israddedigion sy'n astudio'n rhan-amser yng Nghymru yn cynnwys yr un cyfyngiad ac mae'n debygol o leihau'r galw mewn ffordd debyg er y gall fod i raddau llai gan fod ffioedd yng Nghymru yn is ar hyn o bryd. Credwn fod polisi CCI cyffredinol yn mynd yn groes i bolisïau sydd o blaid ailsgilio a bod angen polisïau gwahanol yn y

<sup>9</sup> Ibid.

<sup>10</sup> Clare Callender, *The demise of part-time undergraduate higher education in England: who cares?* (IOE: 2014).

maes hwn. Gallai'r rhain gynnwys eithriadau i fyfyrwyr CCI mewn meysydd pwnc blaenoriaeth a/neu fenthyciadau ar sail prawf moddion.

Mae ffioedd astudiaethau rhan-amser i israddedigion yn dal i fod yn is yng Nghymru nag yn Lloegr a'r rheswm dros hyn yw bod grant Dysgu ac Addysgu sefydliadol CCAUC – er ei fod dan bwysau difrifol – yn dal i fodoli. Mewn datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2013, dywedodd y Gweinidog bod cyflwyno lefelau ffioedd uwch wedi cael 'effaith sylweddol' ar lefelau cyfranogi yn Lloegr<sup>11</sup>. Fel y nodwyd yn yr ymateb hwn, credwn fod sawl ffactor yn gyfrifol am y dirwiad mewn marchnadoedd israddedigion rhan-amser; mae angen i effaith y dirwasgiad economaidd o 2008 gael ei hychwanegu at y rhain hefyd. Awgryma adroddiadau diweddar ar AU ran-amser yn Lloegr y gallai ffioedd uwch ac agweddau ar osgoi mynd i ddyled fod yn ffactor cyfrannol ychwanegol<sup>12</sup> ond gellir dadlau ei bod yn rhy gynnar i ddod i gasgliad pendant o'r fath. Serch hynny, mae'n elfen y mae angen ei hystyried mewn unrhyw gynigion i newid y system ffioedd a chyllid ar gyfer AU ran-amser a byddai ymchwil bellach yn ddefnyddiol yn y maes hwn.

Un o ganlyniadau andwyol clir y system gyllido bresennol yw bod costau cynyddol taliadau grant ffioedd amser llawn israddedigion o flwyddyn i flwyddyn wedi arwain at leihau faint o adnoddau sydd gan CCAUC i'w dyrannu i gefnogi meysydd pwysig eraill â blaenoriaeth. O ganlyniad mae buddsoddi mewn ymchwil o ansawdd da, taliadau premia pynciau cost uchel i sefydliadau a chyllid Dysgu ac Addysgu sefydliadol rhan-amser mewn cystadleuaeth â'i gilydd. Pan fo cyfyngiadau difrifol ar wariant cyhoeddus mae'n anochel bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd ond, yn yr achos hwn, mae'r penderfyniadau'n deillio o gostau polisi sy'n ddrud ac wedi'i ledaenu'n rhy eang, hynny yw nid yw'n cyfeirio'r rhan fwyaf o adnoddau at y rhai sydd eu hangen fwyaf.

Agwedd bwysig ar werth am arian i fyfyrwyr addysg uwch yw enillion ar fuddsoddiad. I fyfyrwyr rhan-amser ar draws y sector, gan gynnwys y rhai sy'n astudio am gyfnodau byr, mae angen mwy o ymchwil i'r premia sy'n cronni i raddedigion, ynghyd â syniad clir o'r cymaryddion perthynol sydd eu hangen i gyfrifo premia o'r fath. Mae gennym rywfaint o ddata ar enillion ar fuddsoddiad i fyfyrwyr Y Brifysgol Agored yng Nghymru. Nid oes gan gyfran sylweddol o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored lefelau traddodiadol o gyrhaeddiad blaenorol (y meini prawf mynediad safonol sy'n ofynnol gan brifysgolion) pan ddônt yn fyfyrwyr AU. Felly, mae'r myfyrwyr hyn yn teithio mwy o 'bellter academaidd' ac mewn termau perthynol cânt fwy o enillion ar fuddsoddiad na myfyrwyr amser llawn traddodiadol sy'n dechrau dilyn cwrs AU yn 18 oed. Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd gan London Economics ar ran Y Brifysgol Agored yn 2014 fod y premiwm net i raddedigion sy'n gysylltiedig â lefelau is o gyrhaeddiad blaenorol, (yn berthynol i 5 TGAU graddau A\*-C neu fwy neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt ond llai na 2 TAU Safon Uwch) sy'n gysylltiedig â

<sup>11</sup> Leighton Andrews, Gweinidog Addysg a Sgiliau, *Datganiad Ysgrifenedig – Cymorth ar gyfer Israddedigion Addysg Uwch Rhan-amser*, (Mawrth 5ed 2013). Ar gael yn

<http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2013/hepartimesupport/?skip=1&lang=cy>

<sup>12</sup> Gweler: Universities UK, *The power of part-time: Review of part-time and mature higher education* (2013)

Oxford Economics, *Macroeconomic influences on the demand for part-time higher education in the UK* (2014)

Clare Callender, *The demise of part-time undergraduate higher education in England: who cares?* (IOE: 2014)

gradd israddedig i fyfyrwr rhan-amser yng Nghymru oddeutu £93,000 i ddyonion a £49,000 i ferched yn 2012-13 mewn termau arian parod.

Mae boddhad myfyrwyr hefyd yn ddangosydd ansawdd a gwerth am arian - yn 2014, am y degfed flwyddyn yn olynol, roedd Y Brifysgol Agored ar y brig yng Nghymru am 'foddhad myfyrwyr cyffredinol' yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.

## **C2. A ydych yn credu bod polisi Llywodraeth Cymru o gefnogi myfyrwyr sy'n huanu o Gymru i astudio yn rhywle arall yn y DU yn gynaliadwy a/neu'n fuddiol yn y tymor hir?**

Cynaliadwy: Ydw [ ] Nac ydw [X] Buddiol: Ydw [ ] Nac ydw [ ]

Mae trafod brwd wedi bod yn y cyfnod yn arwain at yr Adolygiad am y llyf trawsffiniol o fyfyrwyr addysg uwch i mewn ac allan o Gymru ac ynghylch pa mor gynaliadwy yw penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi cymorth ariannol (ar ffurf grant ffioedd) i fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru sy'n astudio mewn prifysgolion yn rhywle arall yn y DU. Mae'r Panel Adolygu'n awyddus i glywed barn rhanddeiliaid am y safbwynt polisi penodol hwn.

Rhowch reswm neu resymau dros eich ateb ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol, os yw ar gael.

Dylai'r system addysg uwch yng Nghymru fod yn seiliedig ar helpu myfyrwyr a sefydliadau i ffynnu waeth beth fo dull neu leoliad astudio myfyriwr. Ym maes cyllid myfyrwyr hoffem weld y sawl sydd â'r angen mwyaf yn cael y cymorth mwyaf. Dyma ddylai fod yn fan cychwyn yn hytrach na daearyddiaeth. Fodd bynnag, pan fo cyfyngiadau difrifol ar wariant cyhoeddus, a bod y 'bwlich cyllido' rhwng sectorau AU yng Nghymru a Lloegr yn parhau, rhaid i lefel yr incwm CCAUC a ddefnyddir bellach i gefnogi myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau y tu allan i Gymru beri pryder, yn rhannol am fod y system yn seiliedig ar lefelau parhaus o incwm ffioedd gan israddedigion amser llawn o Loegr sy'n astudio mewn sefydliadau yng Nghymru.

Mae'n gywir bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried y ffordd orau o flaenoriaethu adnoddau cyfyngedig. Mae'n bwysig ystyried a yw'r strwythur presennol ar gyfer cefnogi myfyrwyr yng Nghymru, yn arbennig y cymhorthdal ffioedd dysgu i bob myfyriwr sy'n huanu o Gymru ac sy'n dilyn cwrs israddedig amser llawn, wedi llwyddo i gynyddu nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n dod yn fyfyrwyr AU a chynyddu cyfraddau cyfranogi ymhlith myfyrwyr ehangu mynediad. Bydd angen cynnal gwerthusiad trylwyr er mwyn pennu a yw'r polisi hwn, a ariannwyd ar draul darpariaeth arall fel AU ran-amser, wedi cael yr effaith ddymunol ac a oes angen, neu sut mae angen, ei diwygio er mwyn cyflawni'r canlyniadau polisi dymunol. Ni chredwn fod y system bresennol yn gynaliadwy. Efallai y caiff ei hystyried yn ddymunol o ganlyniad i'r canlyniadau polisi y mae wedi'i dylunio i'w cyflawni, ond ni ddylid ei chyflawni ar draul

cefnogi darpariaeth ran-amser. Nid yw'r system bresennol yn trin dulliau astudio amser llawn a rhan-amser yn gyfartal ac nid yw'n sicrhau mai'r sawl sydd â'r angen mwyaf a gaiff y cymorth mwyaf.

Un o ganlyniadau andwyol arall y system gyllido bresennol yw bod costau cynyddol taliadau grant ffioedd amser llawn israddedigion o flwyddyn i flwyddyn wedi arwain at leihau faint o adnoddau sydd gan CCAUC i'w dyrannu i gefnogi meysydd pwysig eraill â blaenoriaeth. O ganlyniad mae buddsoddi mewn ymchwil o ansawdd da, taliadau premia pynciau cost uchel i sefydliadau a chyllid Dysgu ac Addysgu sefydliadol rhan-amser mewn cystadleuaeth â'i gilydd. Pan fo cyfyngiadau difrifol ar wariant cyhoeddus mae'n anochel bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd ond, yn yr achos hwn, mae'r penderfyniadau'n deillio o gostau polisi sy'n ddrud ac wedi'i ledaenu'n rhy eang, hynny yw nid yw'n cyfeirio'r rhan fwyaf o adnoddau at y rhai sydd eu hangen fwyaf.

Mae angen i unrhyw bolisi yn y dyfodol gydbwysu anghenion dulliau astudio amser llawn a rhan-amser er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i bawb sydd am ddilyn cwrs AU ac o ran sefyllfa datblygu economaidd Cymru.

### **C3. I ba raddau y mae'r system bresennol sy'n cyllido'r sector addysg uwch yn cefnogi darpariaeth o safon ac yn rhoi gwerth am arian?**

Bydd gan y Panel Adolygu ddiddordeb mewn clywed am gryfderau a manteision y trefniadau presennol yn ogystal ag unrhyw wendidau neu broblemau.

Yn dda iawn [ ] Yn dda [ ] Ddim yn dda iawn [X] Ddim yn gwybod [ ]

Rhowch reswm neu resymau dros eich ateb ynghyd â thystiolaeth ategol, os yw ar gael.

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi croesawu'r dull gweithredu pob oedran sydd, ers 1999, wedi bod ar waith yn y rhan fwyaf o bolisi AU Llywodraeth Cymru<sup>13</sup>. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, bu diffyg cydbwysedd rhwng y buddsoddiad cyhoeddus mewn addysg uwch amser

<sup>13</sup>Gweler: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Y Wlad sy'n Dysgu: Dogfen Ymbaratoi* (2001), ar gael yn <http://gov.wales/docs/dcells/publications/091023learningcountrycy.pdf>; Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* (2006), ar gael yn <http://gov.wales/dcells/publications/publications/guidanceandinformation/learningcountry/learningcountryvis-w.pdf?lang=cy>; Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Er Mwyn Ein Dyfodol - Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain* (2009), ar gael yn <http://gov.wales/docs/dcells/publications/091209fourourfuturecy.pdf>; Llywodraeth Cymru, *Datganiad polisi ar addysg uwch*, (2013), ar gael yn <http://gov.wales/docs/dcells/publications/130611-statement-cy.pdf>  
Gweler hefyd:

Yr Athro Theresa Rees, *Investing in Learners: Coherence, clarity and equity for student support in Wales* (2001), Cynulliad Cenedlaethol Cymru;  
Final Report of an Independent Study into the Devolution of the Student Support System and Tuition Fee Regime in Wales (2005) Fair and Flexible Funding: A Welsh Model to Promote Quality and Access in Higher Education (Rees Review), Llywodraeth Cynulliad Cymru;  
Final Report, Chaired by Dr Heather Graham (2006) Independent Review of Part-Time Higher Education Study in Wales (Graham Review), Llywodraeth Cynulliad Cymru;  
Jones, M et al, *The Independent Review of Higher Education in Wales Phase 2 report*, 2009

llawn a rhan-amser. Rhaid ymdrin â hyn. Nid yw elfen gyffredinol grant ffioedd amser llawn israddedig yn rhoi gwerth am arian gan nad yw'n cyfeirio cymorth cyhoeddus i'r meysydd y mae ei angen fwyaf ac, yn ei dro, mae buddsoddiad cyhoeddus wedi gwyro o ddarpariaeth israddedig ran-amser i amser llawn, fel y nodwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru<sup>14</sup>.

Er mwyn i sefydliadau allu cynnig darpariaeth o safon uchel ar draws dulliau astudio a chynnig AU i ystod eang o fyfyrwyr, rhaid cytuno ar setliad cyllido hirdymor ar gyfer AU ran-amser yng Nghymru. Mae'n hanfodol dysgu gwersi o Loegr lle gwnaed penderfyniadau polisi o ran AU amser llawn ac yna eu rhoi ar waith yng nghyd-destun AU ran-amser; mae hyn wedi arwain at leihad pryderus yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio'n rhan-amser<sup>15</sup>.

Ymhlith yr agweddau cadarnhaol ar y system bresennol yng Nghymru o ran astudio rhan-amser mae ffioedd is (a wnaed yn bosibl drwy grant Dysgu ac Addysgu sefydliadol CCAUC), cyflwyno benthyciadau i astudio'n rhan-amser a grantiau cwrs i fyfyrwyr rhan-amser cymwys – er bod cyfyngiadau cael benthyciad eu hunain yn ymddangos fel petaent yn cyfyngu ar farchnadoedd o fewn darpariaeth ran-amser.

Ar nodyn llai cadarnhaol, mae'r system cyllido AU bresennol yn canolbwyntio'n fwy ar israddedigion amser llawn sy'n dilyn y llwybr traddodiadol o'r ysgol i'r brifysgol. Mae angen unioni'r sefyllfa anghytbwys hon wrth ddatblygu unrhyw system yn y dyfodol. Hefyd mae angen datblygu a chefnogi addysg israddedig ran-amser. Dylai cymorth ariannol fod ar gael i ôl-raddedigion, mewn meysydd pwnc blaenoriaeth efallai, ac ni ddylai fod cyfyngiadau oedran na chyfyngiadau o ran cyfnod astudio.

Mae'r broses o ddileu cyllid strategaeth CCAUC wedi effeithio ar allu sefydliadau i ddarparu AU ran-amser mewn meysydd blaenoriaeth, fel ehangu mynediad a gweithio gyda chyflogwyr (lle mae darpariaeth ran-amser yn chwarae rôl bwysig). At hynny, mae grant Dysgu ac Addysgu sefydliadol CCAUC yn dod o dan bwysau difrifol wrth i gostau'r grant ffioedd i israddedigion amser llawn gynyddu, gan arwain at wasgu cyllid CCAUC i sefydliadau yn gyffredinol (gan gynnwys taliadau ymchwil o ansawdd uchel a phynciau cost uchel) a'u gosod mewn cystadleuaeth â'i gilydd.

Byddai Cymru yn cael budd o bolisi llywodraeth clir, a setliad cyllido cysylltiedig, ar addysg uwch ran-amser yn seiliedig ar ddealltwriaeth nad dim ond fersiwn mwy estynedig neu arafach o astudio amser llawn yw AU ran-amser. Rhaid i benderfyniadau polisi a chyllido gydnabod y ffyrdd amrywiol y mae astudio rhan-amser yn cefnogi'r agenda addysg, cyfiawnder cymdeithasol ac economaidd ehangach.

Agwedd bwysig ar werth am arian i fyfyrwyr addysg uwch yw enillion ar fuddsoddiad. I fyfyrwyr rhan-amser ar draws y sector, gan gynnwys y rhai sy'n astudio am gyfnodau byr, mae angen mwy o ymchwil i'r premia sy'n

<sup>14</sup> Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyllid Addysg Uwch* (2013), t.12 ar gael yn [http://www.wao.gov.uk/system/files/publications/HE\\_Finances\\_Welsh\\_2013.pdf](http://www.wao.gov.uk/system/files/publications/HE_Finances_Welsh_2013.pdf)

<sup>15</sup> CCAULI, *Higher Education in England: Impact of the 2012 reforms* (2012), ar gael yn <http://www.hefce.ac.uk/about/intro/abouthighereducationinengland/impact/>



cronni i raddedigion, ynghyd â syniad clir o'r cymaryddion perthynol sydd eu hangen i gyfrifo premia o'r fath. Mae gennym rywfaint o ddata ar enillion ar fuddsoddiad i fyfyrwyr Y Brifysgol Agored yng Nghymru. Nid oes gan gyfran sylweddol o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored lefelau traddodiadol o gyrhaeddiad blaenorol (y meini prawf mynediad safonol sy'n ofynnol gan brifysgolion) pan ddônt yn fyfyrwyr AU. Felly, mae'r myfyrwyr hyn yn teithio mwy o 'bellter academaidd' ac mewn termau perthynol cânt fwy o enillion ar fuddsoddiad na myfyrwyr amser llawn traddodiadol sy'n dechrau dilyn cwrs AU yn 18 oed. Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd gan London Economics ar ran Y Brifysgol Agored yn 2014 fod y premiwm net i raddedigion sy'n gysylltiedig â lefelau is o gyrhaeddiad blaenorol, (yn berthynol i 5 TGAU graddau A\*-C neu fwy neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt ond llai na 2 TAU Safon Uwch) sy'n gysylltiedig â gradd israddedig i fyfyrwr rhan-amser yng Nghymru oddeutu £93,000 i ddynion a £49,000 i ferched yn 2012-13 mewn termau arian parod.

Mae buddiannau gweithgareddau dysgu ac addysgu'r Brifysgol Agored yng Nghymru, ynghyd â'r rhai sy'n deillio o weithgareddau eraill ac effeithiau maint a strwythur unigryw'r sefydliad, yn cael eu profi mewn termau cymdeithasol. Amcangyfrifodd astudiaeth gan London Economics fod effaith economaidd gweithgareddau'r Brifysgol Agored yng Nghymru oddeutu £137miliwn yn 2012/13 ar ôl ystyried y gost i'r trysorlys. Roedd grant CCAUC i'r Brifysgol Agored y flwyddyn honno yn £11miliwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Panel Adolygu ystyried, yn benodol, fecanweithiau cyllido sy'n cael effaith gadarnhaol ar:

- sicrhau bod mwy o bobl yn cael y cyfle i fanteisio ar addysg uwch – a bod angen sicrhau bod hynny'n un o amcanion craidd unrhyw system yn y dyfodol, a bod y system ei hun yn flaengar ac yn deg
- sicrhau bod yr angen am sgiliau yng Nghymru yn cael ei ddiwallu
- cryfhau'r ddarpariaeth ran-amser ac ôl-radd yng Nghymru
- sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir.

Mae'r cwestiynau canlynol yn rhoi sylw i'r elfennau hyn.

**C4. I ba raddau y mae'r trefniadau presennol ar gyfer cyllido'r sector addysg uwch a chyllid myfyrwyr yn cefnogi camau i sicrhau bod mwy o bobl yn cael cyfle i fanteisio ar addysg uwch? A fydddech yn hoffi gweld unrhyw drefniadau eraill?**

Yn dda iawn [  ]    Yn dda [  ]    Ddim yn dda iawn [X]    Ddim yn gwybod [  ]

Rhowch reswm neu resymau dros eich ateb ynghyd â thystiolaeth ategol, os yw ar gael. Os ydych wedi rhoi 'Ddim yn dda iawn' yn ateb, rhowch fanylion unrhyw drefniadau eraill yr hoffech eu gweld.

Mae'r premiwm ehangu mynediad a delir i sefydliadau y pen yn elfen gadarnhaol o'r system bresennol.

Fodd bynnag, yn gyffredinol ni chredwn mai'r system bresennol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi myfyrwyr o'r cartrefi incwm isaf hynny i mewn i AU, yn enwedig myfyrwyr rhan-amser. Mae llawer o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored o gartrefi incwm isel ac ni chânt symiau cyfatebol o gymorth cyhoeddus i'r hyn a dderbynnir gan fyfyrwr israddedig amser llawn. Mae grant ffioedd israddedigion amser llawn yn gyffredinol ac ar gael i'r rheini o'r cartrefi mwyaf cefnog. Eto i gyd, ni chaiff myfyrwr incwm isel sy'n astudio'n rhan-amser, sy'n debygol o fod wedi talu trethi eisoes sy'n cyfrannu at grant ffioedd israddedigion amser llawn (ac a all barhau i wneud hynny wrth astudio), yn cael yr un gefnogaeth. O ystyried y patrymau recriwtio hirsefydledig fesul oedran ar draws dulliau astudio amser llawn a rhan-amser, ar y cyfan mae gan fyfyrwr rhan-amser nodweddiadol lai o amser i fwynhau buddiannau economaidd graddio o gymharu â myfyrwr amser llawn nodweddiadol. Mae hyn yn codi cwestiynau am briodoldeb ffioedd pro-rata a'r gyfundrefn gyllido os yw myfyrwyr rhan-amser yn cael llai o amser yn gyffredinol i fwynhau'r buddiannau ariannol sy'n gysylltiedig â gradd. Nid yw hyn yn gymdeithasol gyfiawn nac yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i ymdrin ag addysg uwch ar sail pob oedran.

Cafodd y gwahaniaeth hwn mewn cefnogaeth ei waethygu yn sgil colli cyllid strategaeth CCAUC i sefydliadau a arweiniodd at anghydbwysedd andwyol pellach o ran darpariaeth ran-amser o'i chymharu â darpariaeth israddedig amser llawn.

Mae gan ddarpariaeth ran-amser rôl bwysig i'w chwarae wrth ehangu mynediad i AU, er enghraifft, drwy roi cyfleoedd i gyflogeion mewn swyddi cyflog a sgiliau isel ac aelodau cymunedau daearyddol difreintiedig. O ystyried bod myfyrwyr rhan-amser yn dueddol o aros mewn cymunedau lleol, mae gan AU ran-amser dyniant ac effeithiau ychwanegol fel rhan o strategaethau datblygu cymunedol. Dywed adroddiad HESCU sef 'Loyals, Stayers, Returners and Incomers: Graduate migration patterns' (2015) fod dysgwyr sy'n aros yn eu cymunedau lleol i astudio yn deyrngar: "Loyals tend to be slightly older, were more likely to be women and more likely to have studied part-time than other groups. They were more likely to be from a background with lower participation in higher education (HE), and to have a job in education."<sup>16</sup>

Mae gofynion o ran dwysedd astudio gofynnol er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth hefyd yn rhwystr i rai darpar fyfyrwyr, yn enwedig myfyrwyr ehangu mynediad. Gall y dymuniad i osgoi mynd i ddyled hefyd effeithio ar fyfyrwyr rhan-amser. Mae arolwg a gomisiynwyd gan Y Brifysgol Agored yn dangos bod dros hanner (54%) pobl Cymru sy'n ystyried astudio'n rhan amser ar lefel Addysg Uwch yn ystod y pum mlynedd nesaf yn dweud na fydden nhw'n gyfforddus yn benthg arian ar gyfer addysg uwch, lle mai dim

<sup>16</sup> Charlie Ball, *Loyals, Stayers, Returners and Incomers: Graduate migration patterns* (HESCU: 2015). Ar gael yn [http://www.hecsu.ac.uk/assets/documents/hecsu\\_graduate\\_migration\\_report\\_january\\_15.pdf](http://www.hecsu.ac.uk/assets/documents/hecsu_graduate_migration_report_january_15.pdf)

ond 29% o ddarpar fyfyrwyr llawn-amser na fyddai'n gyfforddus yn benthyg arian<sup>17</sup>.

Er nad problem i'r sector AU yn unig yw hon, mae gwasanaeth gyrfaoedd presennol Cymru gyfan yn canolbwyntio'n sylweddol ar bobl iau, sy'n creu diffyg o ran gwybodaeth, cyngor ac arweiniad pwysig i ddarpar fyfyrwyr aeddfed a myfyrwyr aeddfed presennol. Ni all anghenion sgiliau Cymru gael eu diwallu gan y boblogaeth iau yn unig. Mae angen i ni edrych i'n gweithlu hŷn i uwchsgilio ac ailhyfforddi ac mae gwasanaeth gyrfaoedd sy'n darparu ar gyfer pob oedran yn rhan hanfodol o hyn.

Mae 15 y cant o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi datgan eu bod yn anabl – er y gall y nifer wirioneddol o fyfyrwyr anabl sy'n astudio gyda'r Brifysgol Agored fod yn uwch gan nad yw pawb yn datgan eu hanabledd a gall natur hyblyg y Brifysgol Agored fod yn arbennig o ddeniadol i fyfyrwyr a all ei chael hi'n anodd derbyn darpariaeth AU draddodiadol am sawl rheswm. Mae Lwfansau Myfyrwyr Anabl, a'r cymorth y maent yn esgor arnynt, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr anabl yn gallu astudio ac nad ydynt o dan anfantais wrth wneud hynny. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod nifer y ceisiadau am Lwfansau o'r fath gan fyfyrwyr newydd Y Brifysgol Agored wedi lleihau ers i'r broses symud i Cyllid Myfyrwyr Cymru. Awgryma profiad myfyrwyr ei bod yn anodd cael gafael ar y wybodaeth briodol ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru. Yn yr un modd, nid yw'r trefniadau ar gyfer asesu myfyrwyr unwaith y derbynnir eu ceisiadau am Lwfans yn cydnabod anghenion penodol myfyrwyr rhan-amser sy'n dysgu o bell ar hyn o bryd. Gall myfyrwyr anabl ei chael hi'n anodd teithio i ganolfan asesu a hyd yn oed pan maent yn gwneud hynny ni all aseswyr weld myfyrwyr yn eu hamgylchedd astudio normal (sef cartref neu weithle'r myfyriwr fel arfer). Gwaethygir y broblem hon pan fydd aseswyr eu hunain yn fwy cyfarwydd ag asesu myfyrwyr amser llawn ar y campws.

Mae'r system gyllido bresennol yn creu rhwystr cynhenid i Sefydliadau Addysg Uwch gynnig darpariaeth israddedig ran-amser gan nad yw'n cynhyrchu'r un lefelau o incwm â darpariaeth israddedig amser llawn. Mae'r sbardunau i annog sefydliadau i wneud mwy yng nghyd-destun astudio'n rhan-amser ac ehangu mynediad bellach o fewn y strwythur cynllun ffioedd i raddau helaeth na all CCAUC ei ddefnyddio'n hawdd ac – yn sgil pasio'r Bil AU yn y Cynulliad Cenedlaethol – y mae ei sefyllfa o ran darpariaeth ran-amser yn aneglur.

Daw dros 20 y cant o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored yng Nghymru o gategoriâu ehangu mynediad CCAUC. Ar sail ein profiad o weithio gyda'r myfyrwyr hyn a chyflawni mentrau ehangu mynediad ledled Cymru, gwnawn y sylwadau pellach isod:

- Mae'r premiwm ehangu mynediad yn elfen angenrheidiol o'r gyfundrefn gyllido oherwydd mae'n cyfeirio buddsoddiad i'r meysydd y mae ei angen fwyaf ac yn cymell sefydliadau i recriwtio o'r grwpiau targed perthnasol.
- Mae'r pwyslais presennol ar gymwysterau a dwysedd astudio

<sup>17</sup> Open University Tracking Study, Conquest Research (Rhagfyr 2011 – Rhagfyr 2014)

gofynnol er mwyn cael benthyciad yn deillio o'r polisi system cyllido myfyrwyr AU yn Lloegr (yn sgil y gofynion i ddefnyddio'r un system fenthyciadau yng Nghymru). Mae'r gofynion hyn yn lleihau galw myfyrwyr am fodiwlau byr sydd o dan 30 credyd ac yn rhwystro sefydliadau rhag eu cynnig. Mae hyn yn groes i fwriad datganedig Llywodraeth Cymru sef bod angen i fentrau ehangu mynediad "sicrhau bod moddau o ddarpariaeth yn cynnwys: hyblygrwydd...dysgu mewn cyrsiau byr<sup>18</sup>."

- Mae'r mesurau presennol ar gyfer ehangu mynediad yn rhy gul i ddiwallu anghenion tlodi gwledig yng Nghymru.
- Mae angen gwneud mwy i gyfleu'r llwybrau amrywiol ac amgen i mewn i AU i'r rhai dros 25 oed a all fod wedi methu llwybrau confensiynol y tro cyntaf. Mae angen cyfleu (fel sector cyfan) fuddiannau AU i'r grŵp hwn ynghyd â'r ffynonellau posibl o gyllid.
- Mae'r tair partneriaeth Ymestyn yn Ehangach traws-sector wedi ysgogi gwaith traws-sector / rhanbarthol mewn meysydd blaenoriaeth. Byddai'r partneriaethau hefyd yn cael budd o strwythur llywodraethu mwy cadarn. Dylai hefyd fod ymrwymiad penodol, a disgwyliad, i gyflawni AU ar sail pob oedran ymhlith pob partneriaeth. Mae angen prosiectau Cymru gyfan, yn ogystal â rhai rhanbarthol, a chanolbwyntio'n fwy ar y cyfleoedd a gynigir gan Adnoddau Addysgol Agored a dysgu o bell.

**C5. I ba raddau y mae'r trefniadau presennol ar gyfer cyllido'r sector addysg uwch a chyllid myfyrwyr yn cefnogi camau i sicrhau bod mwy o bobl yn cael cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg? A fydddech yn hoffi gweld unrhyw drefniadau eraill?**

Yn dda iawn [ ] Yn dda [ ] Ddim yn dda iawn [ ] Ddim yn gwybod [ ]

Rhowch reswm neu resymau dros eich ateb ynghyd â thystiolaeth ategol, os yw ar gael. Os ydych wedi rhoi 'Ddim yn dda iawn' yn ateb, rhowch fanylion unrhyw drefniadau eraill yr hoffech eu gweld.

Byddai'n werth ystyried sut i gynorthwyo Sefydliadau Addysg Uwch (drwy bartneriaethau presennol efallai) i ddatblygu, ac ariannu, darpariaeth ategol. Er enghraifft, mae'r Brifysgol Agored mewn sefyllfa dda i gyfrannu at yr agenda hon drwy ddarparu Adnoddau Addysgol Agored fel y dysgu ar-lein am ddim a gynigir drwy [OpenLearn Cymru](#). Fel gydag agweddau eraill ar rôl AU, bydd yn bwysig cyflawni gwerth gorau drwy annog sefydliadau i fanteisio ar gryfderau presennol.

**C6. I ba raddau y mae'r trefniadau presennol ar gyfer cyllido'r sector addysg uwch a chyllid myfyrwyr yn cefnogi camau sy'n ymateb i'r**

<sup>18</sup> Llywodraeth Cymru, *Datganiad Polisi ar Addysg Uwch* (Mehafin 2013), ar gael yn <http://gov.wales/docs/dcells/publications/130611-statement-cy.pdf>

## anghenion o ran sgiliau yng Nghymru? A fydddech yn hoffi gweld unrhyw gamau eraill?

Yn dda iawn [ ] Yn dda [ ] Ddim yn dda iawn [X] Ddim yn gwybod [ ]

Rhowch reswm neu resymau dros eich ateb ynghyd â thystiolaeth ategol, os yw ar gael. Os ydych wedi rhoi 'Ddim yn dda iawn' yn ateb, rhowch fanylion unrhyw gamau eraill yr hoffech eu gweld.

Mae dysgu gydol oes a datblygu'r gweithlu yn dod yn fwy pwysig yng nghydestun y newidiadau demograffig a welir dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r rhan fwyaf o weithlu Cymru ar gyfer yr 2020au eisoes yn gweithio<sup>19</sup> a bydd angen opsiynau dysgu hyblyg arno er mwyn cyflawni'r lefelau uchel o sgiliau sydd eu hangen i sicrhau twf economaidd. Ni allwn ddibynnu ar yr hyn a fydd yn llai o raddedigion newydd o raglenni amser llawn.

Mae 66% o fyfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru mewn cyflogaeth lawn amser neu ran-amser wrth astudio ac mae'r rhan fwyaf o israddedigion rhan-amser yn astudio am resymau galwedigaethol a phroffesiynol yn bennaf. Nododd adroddiad 'It's About Time' a gyhoeddwyd yn 2014 gan UCM Cymru a'r Brifysgol Agored yng Nghymru fod 72% o fyfyrwyr rhan-amser mewn gwaith a'r rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros astudio'n rhan-amser oedd i wella cyflogadwyedd yn y dyfodol<sup>20</sup>. Dim ond os cynigir opsiynau dysgu hyblyg a chymorth y gellir cyflawni hyn.

Mae angen cymell cyflogwyr (yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol) a sefydliadau cyflogwyr i gynnal gweithgareddau uwchsgilio a dysgu seiliedig ar waith. Croesawn egwyddor cydfuddsoddi, fel yr amlinellwyd yng nghynllun gweithredu ar gyfer sgiliau Llywodraeth Cymru<sup>21</sup>, a chredwn y gallai gael effaith gadarnhaol ar gyflogwyr a chyflogwyr yng Nghymru. Mae gan addysg a hyfforddiant galwedigaethol rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o gyflawni sgiliau lefel uwch a chroesewir y bwriad i ddatblygu hyn fel partneriaeth rhwng llywodraeth a chyflogwyr. Mae'n bwysig sicrhau bod cost dysgu hyblyg rhan-amser yn aros yn fforddiadwy fel bod y ddarpariaeth hon yn hygyrch i'r rhai a gefnogir drwy gydfuddsoddiad a'r rhai sydd am ariannu eu hunain. Gyda hyn mewn golwg, ynghyd â dadansoddiad sy'n awgrymu bod y gyfundrefn ffioedd ôl-2012 ar gyfer israddedigion rhan-amser yn Lloegr yn rhwystro astudiaethau a noddir gan gyflogwyr<sup>22</sup>, mae angen i drefniadau cyllido sy'n galluogi sefydliadau i gadw eu ffioedd am gyrsiau rhan-amser yn gymharol isel gael eu diogelu. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod gweithwyr rhan-amser, yn enwedig y rhai mewn swyddi cyflog isel, yn gallu cael budd o gydfuddsoddiad a'r agenda datblygu sgiliau.

<sup>19</sup> Nododd y Leitch Review of Skills a luniwyd ar ran Llywodraeth y DU yn 2006 "Today, over 70 per cent of our 2020 workforce have already completed their compulsory education." *Leitch Review of Skills* (2006), t.1. Ar gael yn [http://www.delni.gov.uk/leitch\\_finalreport051206f1\]-2.pdf](http://www.delni.gov.uk/leitch_finalreport051206f1]-2.pdf)

<sup>20</sup> UCM Cymru a'r Brifysgol Agored yng Nghymru, *Mae'n Hen Bryd: Astudiaeth o fyfyrwyr rhan-amser a'u profiadau yng Nghymru* (2014). Ar gael yn <http://www.open.ac.uk/wales/sites/www.open.ac.uk.wales/files/files/ecms/wales-pa/web-content/lt%27s-About-Time-Cymraeg.pdf>

<sup>21</sup> Llywodraeth Cymru, *Cynllun gweithredu ar gyfer sgiliau* (2014). Ar gael yn <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140714-skills-implementation-plan-cy.pdf>

<sup>22</sup> Clare Callender, *The demise of part-time undergraduate higher education in England: who cares?* (IOE: 2014).

Nid yw dull gweithredu sy'n seiliedig ar gymhwyster gradd bob amser yn bodloni galw cyflogwyr a dywed cyflogwyr ac undebau llafur wrthym eu bod yn gwerthfawrogi dulliau modiwlaid o uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu. Hefyd, caiff dysgu hyblyg o bell ei werthfawrogi gan gyflogwyr nad oes ganddynt amser i ryddhau staff i astudio yn ystod oriau gwaith efallai. Yn yr un modd, nid yw trefniadau cyllid myfyrwyr yn ymateb mor hyblyg ag y gallent i brinder sgiliau. Gall fod yn werth ystyried bwrsariau ar gyfer pynciau blaenoriaeth a ddylai gynnwys astudiaethau rhan-amser yn ogystal â rhai amser llawn.

Mae angen datblygu a chefnogi addysg israddedig ran-amser. Dylai fod cymorth ariannol ar gael i ôl-raddedigion, efallai mewn meysydd pwnc blaenoriaeth, ac ni ddylai'r cymorth hwn fod yn gyfyngedig o ran oedran nac o ran cyfnod astudio.

**C7. A yw'r system bresennol o drefniadau cyllido'r sector addysg uwch a chyllid myfyrwyr yn cynnig cydbwysedd priodol o gyllid i gefnogi myfyrwyr i astudio cyrsiau amser llawn i israddedigion, cyrsiau rhan-amser i israddedigion a chysiau ôl-radd? Os nad yw'n cynnig cydbwysedd yn eich barn chi, sut gellid newid hyn?**

Ydy [ ]

Nac ydy [X]

Ddim yn gwybod [ ]

Rhowch reswm neu resymau dros eich ateb ynghyd â thystiolaeth ategol, os yw ar gael. Os ydych yn rhoi 'Nac ydy' yn ateb, byddai gan y Panel Adolygu ddiddordeb mewn clywed eich barn am beth fyddai'n gydbwysedd priodol a chynaliadwy.

Gan nad yw myfyrwyr rhan-amser yn gymwys i gael grant ffioedd dysgu israddedigion amser llawn, ceir bellach gymorth cyhoeddus ar gyfer addysg uwch amser llawn nas buddsoddir yn gymesur mewn addysg uwch ran-amser, er gwaethaf y ffaith bod cyllid Dysgu ac Addysgu sefydliadol CCAUC yn dal i fodoli ar gyfer darpariaeth ran-amser. Mae hyn yn arwyddocaol o ran bod yn deg i fyfyrwyr oherwydd ni fu unrhyw resymeg nac achos cyhoeddus dros drin myfyrwyr rhan-amser yn y modd llai ffafriol hwn. Nid dadl mo hon i'r system ar gyfer y ddau fath o ddarpariaeth fod yn gyfartal; yn hytrach, mae'n ddadl dros fuddsoddiad cytbwys yn y naill a'r llall.

Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddarparu lefel uchel o gymorth grant ffioedd i israddedigion amser llawn yn golygu bod llai o arian ar gael ar gyfer darpariaeth ran-amser. Am y rheswm hwn, mae angen i'r ddau ddull astudio gael eu hystyried gyda'i gilydd wrth wneud penderfyniadau polisi nad yw wedi digwydd eto. Mae llawer o fyfyrwyr sy'n dewis astudio'n rhan-amser yn gwneud hynny am fod eu hamgylchiadau yn golygu mai dyma'r opsiwn gorau, neu'r unig opsiwn, iddynt. Mae bron yn anochel yn ddewis cadarnhaol. Efallai y byddant eisoes yn gweithio ac am uwchsgilio neu ailhyfforddi, neu efallai y byddant am ailymuno â'r farchnad lafur neu fod ganddynt gyfrifoldebau gofalu. Mae myfyrwyr rhan-amser sy'n aros mewn swydd hefyd yn talu treth ac Yswiriant Gwladol gan olygu y gall Cymru gael

budd o'r ffaith eu bod yn parhau i fod yn weithgar yn economaidd wrth astudio. Mae gan ddarpariaeth dysgu o bell hyblyg, fel yr hyn a ddarperir gan Y Brifysgol Agored, rôl arbennig i'w chwarae hefyd o ran cynnig cyfleoedd i bobl anabl, a gofalwyr, ddilyn cwrs AU. Bydd mynediad i addysg uwch ran-amser i'r unigolion a'r grwpiau hyn yn galluogi darparwyr AU i ddiwallu anghenion economi Cymru, cynorthwyo symudedd cymdeithasol, cyfiawnder cymdeithasol a datblygu cymunedol ac, yn ei dro, yn cyfrannu at greu Cymru fwy ffyniannus. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i benderfyniadau ynghylch sut y cefnogir myfyrwyr rhan-amser fod yn ganolog i unrhyw drafodaethau am gyllido AU yn y dyfodol a pheidio â bod yn ôl-ystyriaeth neu'n wrthbwynt i 'norm' (anwir) darpariaeth amser llawn.

*Gweler ein hymateb i C 1 hefyd.*

Mae tegwch i fyfyrwyr rhan-amser ymhell ar ei hôl hi mewn perthynas â Cyllid Myfyrwyr Cymru yn arbennig. Mae'r dyddiad y gall myfyrwyr rhan-amser ddechrau cyflwyno ceisiadau am fenthyciad yn hwyrach nag ar gyfer myfyrwyr amser llawn. Gall myfyrwyr dysgu o bell yn arbennig, sydd yn aml yn gwneud penderfyniad cynnar ynghylch eu hastudiaethau, gael eu rhwystro rhag parhau â'u cais oherwydd yr oedi hir rhwng cofrestru am gwrs a gallu gwneud cais am fenthyciad. Hefyd, er gwaethaf proses gwneud cais ar-lein i fyfyrwyr amser llawn yng Nghymru, ac yn wir fyfyrwyr rhan-amser yn Lloegr, system all-lein a gynigir i fyfyrwyr rhan-amser yng Nghymru o hyd a fformat copi caled, heb fod unrhyw gymhellant i gyflwyno system ar-lein yn ôl pob golwg. Mae hyn yn arwain at fwy o oedi wrth brosesu benthyciadau i'r myfyrwyr hyn, o gymharu â myfyrwyr amser llawn, unwaith y bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn agored i geisiadau.

Gall ymwybyddiaeth o'r benthyciadau sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser a'r dymuniad i osgoi mynd i ddyled hefyd fod yn cyfrannu at unrhyw ostyngiad canfyddedig yn y galw am ddarpariaeth ran-amser. Mae myfyrwyr rhan-amser, y mae llawer ohonynt yn gweithio ac efallai â theluoedd ac ymrwymadau eraill gan gynnwys morgeisi, yn fwy tebygol o fod am osgoi mynd i ddyled ar y cyfan na phobl ifanc 18 oed ac, felly, maent yn fwy amharod i drefnu benthyciad. Mae arolwg a gomisiynwyd gan Y Brifysgol Agored yn dangos bod dros hanner (54%) pobl Cymru sy'n ystyried astudio'n rhan amser ar lefel Addysg Uwch yn ystod y pum mlynedd nesaf yn dweud na fydden nhw'n gyfforddus yn benthyc arian ar gyfer addysg uwch, lle mai dim ond 29% o ddarpar fyfyrwyr llawn-amser na fyddai'n gyfforddus yn benthyc arian<sup>23</sup>. Petai telerau ad-dalu yn cael eu deall yn well gan ddarpar fyfyrwyr rhan-amser gallai'r galw gynyddu. Yn yr un modd, gall diffyg ymwybyddiaeth o fenthyciadau ar gyfer astudiaethau rhan-amser effeithio ar alw. Mewn astudiaeth olrhain a gomisiynwyd gan Y Brifysgol Agored, dengys y canlyniadau nad yw pedwar o bob pum darpar fyfyrwr rhan-amser yn Lloegr, y mae pob un wedi dweud bod ganddynt ddiddordeb mewn astudio'n rhan-amser ar lefel AU yn y pum mlynedd nesaf, yn ymwybodol bod benthyciadau ar gael i astudio'n rhan-amser<sup>24</sup>. Bydd data ar gyfer darpar fyfyrwyr yng Nghymru ar gael o'r un astudiaeth yn hwyrach eleni. Petai mwy

<sup>23</sup> Open University Tracking Study, Conquest Research (Rhagfyr 2011 – Rhagfyr 2014)

<sup>24</sup> Ibid.

o ddarparu fyfyrwyr aeddfed yn gwybod am argaeledd benthyciadau i astudio'n rhan-amser, ymddengys yn rhesymol tybio y gallai fod mwy o alw.

Ers ehangu addysg uwch yn y 1990au, nodwyd yn gyffredinol fod y gwahaniaeth rhwng astudiaethau israddedig amser llawn a rhan-amser wedi dod yn llai amlwg. Mae hyn wedi digwydd o ganlyniad i'r niferoedd mawr o fyfyrwyr amser llawn sy'n gweithio ac, i raddau llai, y myfyrwyr rhan-amser y mae eu llwyth astudio yn debyg i swm cyfatebol amser llawn.

Fodd bynnag, mae'r disgrifiad hwn yn dod yn llai ystyrion o'i ddadansoddi'n agosach. Mae'r rhan helaeth o fyfyrwyr rhan-amser yn hŷn ac eisoes yn gweithio (neu'n chwilio am waith) ac mae ganddynt ymrwymadau ariannol a theuluol sylweddol. Fel y dywed Callender 'part-time students fit their studies around their jobs and domestic commitments and see themselves as workers who study. By contrast, full-timers fit their jobs around their studies and see themselves as students who work.' Aiff Callender ymlaen i ddweud bod cysyniadau o risg ac – i rai – osgoi mynd i ddyled yn pwysu'n drymach ar fyfyrwyr rhan-amser (a hefyd ar gyflogwyr sydd am noddi cyflogeion i astudio ar lefel AU). Yn gyffredinol, caiff ffactorau macro-economaid fwy o effaith ar benderfyniadau buddsoddi unigol o ran AU rhan-amser, gan gynnwys barnu costau cyfleoedd<sup>25</sup>.

Mae'r rhain yn agweddau cyd-destunol a pherthnasol pwysig ar farchnadoedd myfyrwyr AU rhan-amser ac mae angen eu hystyried yn ofalus wrth ddylunio a gweithredu systemau ffioedd a chyllid. Mae nodweddion unigryw marchnadoedd a dysgwyr rhan-amser, a'r elfennau sy'n eu llywio, yn tynnu sylw at wendid dim ond dylunio cyfundrefn ffioedd a chyllid sy'n 'gweddu' i farchnadoedd israddedigion amser llawn ar sail y sawl sy'n gadael yr ysgol ac yna ei rhoi ar waith, ar sail pro-rata, yng nghyd-destun gwahanol iawn grwpiau cleientiaid sy'n astudio neu sydd am astudio'n rhan-amser.

Mae angen datblygu a chefnogi addysg israddedig rhan-amser hefyd. Dylai fod cymorth ariannol ar gael i ôl-raddedigion, efallai mewn meysydd pwnc blaenoriaeth, ac ni ddylai'r cymorth hwn fod yn gyfyngedig o ran oedran nac o ran cyfnod astudio.

Yn gyffredinol, mae angen system arnom sy'n darparu addysg uwch i unrhyw un sydd am ei chael ac sy'n galluogi economi Cymru i ffynnu drwy uwchsgilio ein gweithlu a diwallu anghenion a nodwyd. Dylai hyblygrwydd fod wrth wraidd y system hon fel nad yw'r dull astudio yn berthnasol i'r gallu i gael AU a chymorth ariannol.

Mae'r drafodaeth ddominyddol mewn cylchoedd llunio polisiau cyhoeddus ac o ran y ddadl gyhoeddus ehangach ynghylch dibenion a buddiannau addysg uwch yn tybio'n gyson lwybr amser llawn traddodiadol yn syth o'r ysgol. Rhaid i hyn newid. Rhaid rhoi mwy o gefnogaeth i'r opsiwn rhan-amser ond rhaid iddo hefyd gael mwy o sylw mewn polisi a thrafodaethau cyhoeddus.

<sup>25</sup> Clare Callender, *The demise of part-time undergraduate higher education in England: who cares?* (IOE: 2014).



### **C8. Sut y byddech yn disgrifio system addysg uwch o'r safon uchaf, a beth fyddai'r goblygiadau o beidio â chael system addysg uwch o'r safon uchaf yng Nghymru?**

Mae hwn yn gwestiwn cyffredinol yn fwriadol. Bydd eich ymateb yn llywio sut y bydd y Panel Adolygu'n meddwl am y math o system addysg uwch y bwriedir i'r argymhellion terfynol ei chefnogi. Gellir ystyried y cwestiwn o safbwynt datblygu economaidd, arloesi ac ymchwil, cymuned, safbwynt cymdeithasol, diwylliannol, strwythurol, ariannol, ansawdd, myfyrwyr, cyflogwyr neu unrhyw safbwynt arall sy'n briodol yn eich tyb chi. Wrth lunio'ch ymateb, byddai'n dda cael enghreifftiau o arfer da yr hoffech eu dwyn i sylw'r Panel Adolygu.

Mae addysg uwch yn hanfodol i economi a chymdeithas fodern. Ei phrif nod yw creu, datblygu a lledaenu gwybodaeth a dealltwriaeth ddynol, sydd o fudd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a deallusol i gymdeithas ac unigolion. Fel sector, system, set o sefydliadau unigol a chymuned o academyddion a myfyrwyr mae AU yn fuddsoddiad cyhoeddus cadarn ac angenrheidiol. Drwy ymchwil, arloesedd, entrepreneuriaeth a chydweithredu mae'n denu symiau sylweddol o incwm nad yw'n arian cyhoeddus ac, yn ei dro, mae'n gyfrwng twf economaidd yn y gymdeithas ehangach. Mae buddsoddiad cyhoeddus mewn AU yn cefnogi swyddogaethau amrywiol AU gan gynnwys addysgu, ymchwil, a gweithgareddau fel trosglwyddo gwybodaeth, ehangu mynediad a chanlyniadau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd eraill sy'n deillio'n briodol o AU fel set o arferion ar wahân.

Cafodd dibenion eang addysg uwch eu hamlinellu'n dda yn adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Addysg Uwch yng Nghymru, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn 2009<sup>26</sup>. Nododd yr adroddiad y dylai addysg uwch gyflawni'r chwe swyddogaeth angenrheidiol ganlynol yng Nghymru a'u bod yn gyffredin i AU mewn cymdeithasau democrataidd modern:

- creu'r amgylchedd i herio a chefnogi unigolion i gyflawni'r lefelau uchaf o fodlonrwydd personol a deallusol, waeth o ble y maent yn dod
- meithrin ymchwil ac archwilio sy'n cyfrannu at gyfanswm gwybodaeth ddynol, p'un ai a ddefnyddir y darganfyddiad deallusol ar y pryd neu'n uniongyrchol ai peidio
- datblygu gwybodaeth, sgiliau lefel uchel a dealltwriaeth o unigolion er mwyn gyrru economi sy'n gallu addasu, sy'n gynaliadwy ac sy'n arloesol
- ymelwa ar wybodaeth ac arbenigedd er mwyn gyrru twf economaidd cynaliadwy a chreu cyfoeth
- helpu i feithrin cymdeithas ddemocrataidd, wâr a chynhwysol sy'n cydnabod hunaniaeth ddiwylliannol amrywiol ac sy'n dathlu creadigrwydd diwylliannol
- chwarae rôl arweiniol wrth sicrhau bod Cymru'n cael ei chydabod fel cyfrannwr gwerthfawr at y gymuned fyd-eang.

<sup>26</sup> Jones, M et al, *Adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru – Cam 2* (2009), Llywodraeth Cymru

Mae system AU o'r radd flaenaf i Gymru yn un sy'n cyflawni pob un o'r rolau uchod ar lefel uchel o berfformiad, a feincnodir yn erbyn systemau a sefydliadau a ystyrir yn ardderchog yn rhyngwladol.

Mae hefyd yn gofyn am gynnwys pob oedran mewn dysgu a galluogi ehangu mynediad wrth wneud hynny. Yn ei dro, mae hyn yn gofyn am droi cefn ar unrhyw ddarpariaeth 'ddiofyn' yn seiliedig ar astudiaethau amser llawn. Dylai AU gynnwys darpariaeth lle bo'r dull astudio yn eilaidd i'r cyfle i ddilyn cwrs AU a chael budd ohono.

Dylai AU weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth a diwydiant er mwyn diwallu anghenion sgiliau a chefnogi datblygu economaidd tra hefyd yn galluogi ac yn hyrwyddo dysgu a dealltwriaeth ddynol ehangach a chefnogi trafodaeth seiliedig ar dystiolaeth, ysgoloriaeth a her, a rhyddid academiaidd. Bydd yn cynnig sgiliau academiaidd a galwedigaethol ac yn cyfrannu at ddatblygu unigolion a chymdeithas yn gyffredinol.

Dylai cyflwyno'r fath system yng Nghymru ein galluogi i arwain y ffordd wrth ddarparu cyfleoedd dysgu hyblyg ochr yn ochr â gwybodaeth, cyngor ac arweiniad clir a hygyrch i bob darpar ddysgwyr o ran mynediad i AU yn ogystal ag opsiynau cymorth ariannol. Dylai un sefydliad arweiniol diduedd fod yn gyfrifol am hyn ar draws y sector AU yng Nghymru.

Dylai'r system hefyd alluogi sefydliadau addysg uwch i fanteisio ar eu cryfderau tra'n rhannu gwybodaeth, arbenigedd ac arweinyddiaeth mewn amrywiaeth o feysydd fel: ymchwil; astudio rhan-amser; gwahanol ddisgyblaethau academiaidd; dysgu seiliedig ar waith; profiad myfyrwyr a dysgu o bell.

Ni ddaw dewis na chyfle o flaenoriaethu un sector neu un math o sefydliad addysgol dros un arall ond o gefnogi amrywiaeth o sefydliadau, y maent i gyd yn cynnig darpariaeth gyfoethog a chynaliadwy i'r gynulleidfa ehangaf.

Mae llwyddo i ehangu mynediad i AU er budd cyfiawnder cymdeithasol yn deillio o gyfuniad o weithgarwch allanol a recriwtio wedi'i dargedu, ynghyd â gwell cymorth personol, llwybrau mynediad agored wedi'u teilwra, opsiynau dysgu hyblyg a thechnolegau arloesol.

Byddai diffyg system AU o'r radd flaenaf yn golled i bobl Cymru (myfyrwyr, darpar fyfyrwyr a'r boblogaeth yn gyffredinol) ac economi Cymru. Mae angen i Gymru gael system AU sy'n galluogi pawb a all gael budd i gyfranogi er mwyn cyflawni eu potensial (ac sy'n eu cefnogi i wneud hynny), yn diwallu anghenion economi Cymru ac yn cyfrannu at gyflawni cyfiawnder cymdeithasol.

### **C9. Sut y byddech yn disgrifio system gyllido sector addysg uwch o'r safon uchaf?**

(Byddai'n fuddiol wrth i chi lunio'ch ymateb eich bod yn ystyried unrhyw agweddau perthnasol a nodir yn y cylch gorchwyl.)

Erbyn hyn, derbynnir yn gyffredinol y caiff buddiannau AU eu rhannu rhwng unigolion a chymdeithas yn ehangach, ac felly y dylai'r costau gael eu rhannu rhwng unigolion a chymdeithas yn ehangach. O ran buddsoddi cyhoeddus mewn cyllid myfyrwyr, gall fod achos dros ryw elfen o gyffredinrwydd a all ddigwydd drwy ariannu sefydliadau, yn hytrach na myfyrwyr, ond dylid canolbwyntio ar roi'r cymorth mwyaf i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Mae angen i unrhyw system gyllido yn y dyfodol gael ei datblygu ar sail cydbwysedd cyfartal rhwng buddsoddiad a chymorth rhwng astudiaethau amser llawn a rhan-amser. Nid yw hyn yn golygu mai un math o system gyllido sy'n gymwys i'r ddau fath o ddysgu. Yn hytrach, mae'n gofyn am ystyried anghenion ac amgylchiadau myfyrwyr rhan-amser ac amser llawn a chreu system sy'n galluogi unrhyw un sydd am ddilyn cwrs AU i gael cymorth ariannol priodol, waeth pa ddull astudio a ddewisir ganddynt.

Dyma rai o egwyddorion system gyllido AU o'r radd flaenaf:

- Dylai'r system gyllido gynnis cydbwysedd o ran buddsoddi mewn dulliau astudio amser llawn a rhan-amser.
- Dylai'r system alluogi myfyrwyr i astudio'n hyblyg mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion ac ni ddylai neb fod o dan anfantais ariannol o ganlyniad i'w dewis ddull astudio.
- Dylid darparu ar gyfer costau ychwanegol recriwtio a chadw ehangu mynediad a dargedir o fewn y system gyllido.
- Dylid cynnis system gyllid a chymorth glir i fyfyrwyr o bob oedran sy'n hawdd ei deall a'i defnyddio.
- Dylid parhau â'r egwyddor cyllid hyd braich.

**C10. Beth, yn eich barn chi, fyddai elfennau system cymorth/cyllid myfyrwyr addysg uwch o safon uchaf?** (Byddai'n fuddiol wrth i chi lunio'ch ymateb eich bod yn ystyried unrhyw agweddau perthnasol a nodir yn y cylch gorchwyl.)

Dylai'r system alluogi myfyrwyr i astudio'n hyblyg mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion ac ni ddylai neb fod o dan anfantais ariannol o ganlyniad i'w dewis ddull astudio.

Dyma rai o egwyddorion system cyllid / cymorth myfyrwyr AU o'r radd flaenaf:

- Cynorthwyo myfyrwyr o bob oedran.
- Buddsoddi cyfartal rhwng y rhai sy'n astudio'n amser llawn ac yn rhan-amser, gan gynnwys systemau a chymorth cyfatebol gan Cyllid Myfyrwyr Cymru.
- Cydbwysedd priodol rhwng cefnogi costau ffioedd a chostau byw.
- Dylai cymorth dargedu'r rhai sydd ei angen fwyaf.
- Dylid darparu ar gyfer costau ychwanegol recriwtio a chadw ehangu mynediad a dargedir o fewn y system gyllido.

**C11. A ydych yn credu bod y trefniadau presennol ar gyfer cyllido'r sector addysg uwch a chyllid myfyrwyr yng Nghymru yn gynaliadwy? Os nad ydych yn meddwl eu bod, pa elfennau yn y system bresennol y byddech chi'n eu hepgor neu'n eu newid?**

Ydw [  ]

Nac ydw [X]

Ddim yn gwybod [  ]

Rhowch reswm neu resymau dros eich ateb ynghyd â thystiolaeth ategol, os yw ar gael.

Mae polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer grant ffioedd i israddedigion amser llawn wedi arwain at drosglwyddiad net o adnoddau o astudio rhan-amser i astudio amser llawn, wedi'i hwyluso'n rhannol gan y broses o ddileu ffrydiau cyllido strategaeth CCAUC. Gwnaeth yr arian hwn ategu gwaith a dargedwyd i ehangu mynediad a datblygu sgiliau drwy gysylltu â chyflogwyr. O ran sefydliadau sydd hefyd yn cynnig darpariaeth israddedig amser llawn, mae'r cynnydd mewn incwm ffioedd o'r lefelau uwch o ffioedd a grantiau ffioedd yn gwneud iawn am ddileu eu cyllid strategaeth. Fodd bynnag, cafodd y cyllid hwn ei ddileu ar gyfer darpariaeth ran-amser hefyd lle nad oes fersiwn cyfatebol o ffioedd uwch neu grantiau ffioedd yn bodoli i ddarparu incwm.

I'r Brifysgol Agored, bu canlyniadau'r gyfundrefn ffioedd a chyllid ôl-2012 yn hynod aciwt, am nad yw'n cynnig darpariaeth amser llawn hefyd.

Mae angen i unrhyw system gyllido yn y dyfodol gael ei datblygu ar sail cydbwysedd cyfartal rhwng buddsoddiad a chymorth rhwng astudiaethau amser llawn a rhan-amser. Nid yw hyn yn golygu mai un math o system gyllido sy'n gymwys i'r ddau fath o ddysgu. Yn hytrach, mae'n gofyn am ystyried anghenion ac amgylchiadau myfyrwyr rhan-amser ac amser llawn a chreu system sy'n galluogi unrhyw un sydd am ddilyn cwrs AU i gael cymorth ariannol priodol, waeth pa ddull astudio a ddewisir ganddynt.

**C12. A yw'r system bresennol ar gyfer cyllido addysg uwch yn cynnig cymysgedd priodol o ddyraniadau cyllid i'r sector addysg uwch (e.e. drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) neu ddyraniadau cyllid Llywodraeth Cymru i sefydliadau addysg uwch) a grantiau a benthyciadau â chymhorthdal i fyfyrwyr er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor hir? Os nad ydych o'r farn bod y system bresennol yn gwneud hyn, beth fyddai'r goblygiadau wrth gadw'r system bresennol? Ac a fydddech yn hoffi gweld unrhyw newidiadau?**

Ydy [  ]

Nac ydy [X]

Ddim yn gwybod [  ]

Rhowch reswm neu resymau dros eich ateb ynghyd â thystiolaeth ategol, os yw ar gael. Os ydych yn rhoi 'Nac ydy' yn ateb, byddai gan y Panel Adolygu ddiddordeb mewn clywed eich barn ynghylch pa drefniadau eraill sy'n angenrheidiol i sicrhau cymysgedd priodol a chynaliadwy.

Gweler ein hateb i C 11.

Petai'r sefyllfa sydd ohoni yn parhau o ran y gefnogaeth a roddir i ddarpariaeth ran-amser ar hyn o bryd, mae'n anodd gweld sut y gellid osgoi dirywiad pellach mewn darpariaeth ran-amser mewn sefydliadau a niferoedd cyffredinol myfyrwyr rhan-amser. Credwn fod angen i'r system cymorth myfyrwyr gael ei hailystyried gan roi'r un sylw i anghenion myfyrwyr amser llawn a rhan-amser.

**C13. Pa heriau sy'n wynebu neu'n debygol o wynebu sefydliadau yng Nghymru a allai effeithio ar eu cynaliadwyedd yn y tymor hir neu ar eu cyfeiriad yn y dyfodol, a pha gamau y gellir eu cymryd gan a) y sector addysg uwch ei hun; a b) Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hyn?**

Rhowch dystiolaeth ategol, os yw ar gael.

Gallai penderfyniad Llywodraeth y DU i godi'r cap ar niferoedd myfyrwyr yn Lloegr gael effaith negyddol ar niferoedd myfyrwyr yng Nghymru. Bydd angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu polisi a all wrthsefyll yr her hon.

Mae angen i Lywodraeth Cymru, drwy CCAUC, barhau i fuddsoddi mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru fel y gallant gystadlu ar draws y DU a'r byd.

O ran AU ran-amser, yr her fydd cynnal niferoedd myfyrwyr rhan-amser mewn amgylchedd ariannol heriol. Gall CCAUC a Llywodraeth Cymru gyflawni hyn drwy gymell darpariaeth ran-amser, parhau i gyfarwyddo sefydliadau i gadw ffioedd rhan-amser yn isel (a bod cyllid sefydliadol Dysgu ac Addysgu CCAUC yn parhau) a chyfleu gwerth a photensial astudio rhan-amser ledled Cymru (yn ogystal â thrwy Sefydliadau Addysg Uwch yn unigol) i unigolion a chyflogwyr.

O ystyried y cyfyngiadau ariannol presennol gall fod yn fwy effeithiol ariannu nifer fach o ddarparwyr i gynnig AU ran-amser, tra'n ceisio sicrhau mai hyn sy'n rhoi'r cyfle gorau i unigolion astudio'n rhan-amser yn hytrach na'u rhwystro. Byddai'n bwysig sicrhau bod sefydliadau yn gallu gweithredu ar sail eu cryfderau. Mae'r Brifysgol Agored mewn sefyllfa dda i ddod yn brif ddarparwr AU ran-amser ar draws Cymru gyda rhywfaint o ddarpariaeth ran-amser wyneb yn wyneb efallai'n cael ei chynnig gan Sefydliadau Addysg Uwch eraill lle gellir dangos bod angen strategol, a chyda llwybrau dilyniant clir i mewn i'r Brifysgol Agored ac allan ohoni lle bo'n briodol. Byddai canolbwyntio ar lai o sefydliadau sy'n darparu AU ran-amser, sydd â'r arbenigedd a'r profiad i gynnig darpariaeth hyblyg i ddysgwyr, yn arwain at ddefnydd gwell a mwy effeithlon o adnoddau<sup>27</sup>.

**C14. Rhag-welir caledi ariannol am ddegawd yng nghyswllt arian sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd cyllideb benodol ar gael i Lywodraeth Cymru**

<sup>27</sup> Awgrymwyd y posibilrwydd o gyfeirio cyllid rhan-amser tuag at rai sefydliadau ag arbenigedd rhan-amser gan CCAUC yn ei ymgynghoriad yn 2014 sef W14/33HE *Consultation on our approach to funding in 2015/16 and subsequent years*, t 6. Ar gael yn [http://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars\\_2014/W14%2033HE%20Consultation%20on%20ur%20approach%20to%20funding%20in%202015\\_16%20and%20subsequent%20years.pdf](http://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2014/W14%2033HE%20Consultation%20on%20ur%20approach%20to%20funding%20in%202015_16%20and%20subsequent%20years.pdf)

a'r Adran Addysg a Sgiliau. Bydd yn rhaid i'r Panel Adolygu gadw hyn mewn cof wrth lunio ei argymhellion terfynol os ydynt am fod yn ymarferol, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Bydd angen i'r Panel Adolygu sicrhau bod ei argymhellion ar gyfer cyllido addysg uwch yn cael eu llunio o fewn cyd-destun addysg ehangach, a bydd angen darparu sylfaen dystiolaeth gadarn iawn i gefnogi unrhyw argymhelliad sy'n debygol o arwain at ailgyfeirio neu gynyddu'r cyllid i addysg uwch. Ac ystyried y safbwynt hwn, ac wrth feddwl am y system addysg yn ei chyfanrwydd:

**Ar beth ddylai'r flaenoriaeth fwyaf fod ar gyfer unrhyw ailgyfeirio yn y dyfodol neu fuddsoddi cyllid ychwanegol yn y sector addysg?**

Ysgolion [ ] Addysg bellach [ ] Addysg uwch [ ]

Arall [X] Rhowch fanylion: A balance across all of these areas

Rhowch reswm neu resymau dros eich ateb ynghyd â thystiolaeth ategol, os yw ar gael.

Mae system addysg aeddfed â lefelau uchel o berfformiad yn gofyn am gydbwysu buddsoddiad ar draws oedrannau a chyfnodau mewn bywyd. Golyga hyn y bydd angen i leoliadau cyn ysgol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch gael arian cyhoeddus, a di-weld a syml yw ystyried bod yr elfennau amrywiol hyn yn groes i'w gilydd. Fel y mae ysgolion yn gonglfeini cymdeithas ddatblygedig addysgedig sy'n gymdeithasol gyfiawn, ni ellir dychmygu creu Cymru fwy ffyniannus a chymdeithasol gyfiawn heb fod system AU ag adnoddau da yn chwarae rôl ganolog. Byddai diffyg system AU o'r radd flaenaf yn golled i bobl Cymru (myfyrwyr, darpar fyfyrwyr a'r boblogaeth yn gyffredinol) ac economi Cymru. Mae angen i Gymru gael system AU sy'n galluogi pawb a all gael budd i gyfranogi er mwyn cyflawni eu potensial (ac sy'n eu cefnogi i wneud hynny), yn diwallu anghenion economi Cymru ac yn cyfrannu at gyflawni cyfiawnder cymdeithasol.

Fodd bynnag, bydd system addysg sy'n addas ar gyfer yr oes fodern a'r dyfodol yn un nad yw'n 'gorffen' pan fo rhywun yn 21 neu'n 22 oed. Bydd angen iddi fod yn seiliedig ar egwyddor dysgu gydol oes, gan gynnwys uwchsgilio ac ailsgilio. Golyga hyn sicrhau bod darpariaeth yn hyblyg ac yn cyrraedd safon uchel i bob oedran ac na chaiff neb ei adael ar ôl am iddo gollu cyfle neu gael profiad gwael. Er bod yn rhaid cydnabod y gyllideb gyfyngedig sydd ar gael i gyflawni ym mhob un o'r meysydd hyn, ni ellir dewis un dros y llall. Yn hytrach, rhaid creu system sy'n cydweithio er budd pob oedran ac er mwyn cyflawni cyfiawnder cymdeithasol ac economi lewyrchus.

Mae addysg uwch yn hanfodol i economi Cymru, lles ac uwchsgilio unigolion ac ymdrin â thlodi mewn gwaith ac allan o waith. Ni all Cymru ffynnu heb system AU lwyddiannus. Rhaid i'r buddsoddiad yn y system honno gael ei rannu ar draws mathau o ddarpariaeth fel y gall cynifer o bobl â phosibl gael budd ohoni.

O fewn addysg uwch, fel mewn meysydd polisi cyhoeddus eraill, rhaid i fuddsoddiad cyhoeddus gael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n sicrhau'r gwerth a'r canlyniadau gorau posibl. Bydd angen cydbwysedd ar draws mathau o

ddarpariaeth a sicrhau mai'r unigolion a'r ardaloedd hynny â'r angen mwyaf a gaiff y cymorth mwyaf er mwyn gwneud hyn.

**C15. Pa newidiadau y gellid eu gwneud i'r trefniadau addysg uwch presennol (ariannol, strwythurol neu fel arall) a fyddai'n sicrhau bod modd cyfeirio cyllid addysg uwch yn fwy effeithlon ac effeithiol i'r mannau lle mae ei angen fwyaf ac y byddai'n cael yr effaith fwyaf?**

Rhowch reswm neu resymau dros eich ateb ynghyd â thystiolaeth ategol, os yw ar gael.

Dylai'r system cyllid a chymorth myfyrwyr AU weithredu ar sail pob oedran a chynnig buddsoddiad cytbwys rhwng addysg uwch amser llawn a rhan-amser. Mae angen system arnom sy'n darparu addysg uwch i unrhyw un sydd am ei chael ac sy'n galluogi economi Cymru i ffynnu drwy uwchsgilio ein gweithlu a diwallu anghenion a nodwyd. Dylai hyblygrwydd fod wrth wraidd y system hon fel nad yw'r dull astudio yn berthnasol i'r gallu i gael AU a chymorth ariannol. Rhaid ystyried y sector rhan-amser yn llawn ochr yn ochr â'r sector amser llawn fel rhan o system sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol ac yn cyfeirio cymorth lle mae ei angen fwyaf.

O ystyried y cyfyngiadau ariannol presennol gall fod yn fwy effeithiol ariannu nifer fach o ddarparwyr i gynnig AU ran-amser, tra'n ceisio sicrhau bod hyn yn rhoi'r cyfle gorau i unigolion astudio'n rhan-amser yn hytrach na'u rhwystro. Byddai'n bwysig sicrhau bod sefydliadau yn gallu gweithredu ar sail eu cryfderau. Mae'r Brifysgol Agored mewn sefyllfa dda i ddod yn brif ddarparwr AU ran-amser ar draws Cymru gyda rhywfaint o ddarpariaeth ran-amser wyneb yn wyneb efallai'n cael ei chynnig gan Sefydliadau Addysg Uwch eraill lle gellir dangos bod angen strategol, a chyda llwybrau dilyniant clir i mewn i'r Brifysgol Agored ac allan ohoni lle bo'n briodol. Byddai canolbwyntio ar lai o sefydliadau sy'n darparu AU ran-amser, sydd â'r arbenigedd a'r profiad i gynnig darpariaeth hyblyg i ddysgwyr, yn arwain at ddefnydd gwell a mwy effeithlon o adnoddau<sup>28</sup>.

**C16. Amcangyfrifir mai 34.6 y cant fydd y gyfradd cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau (RAB) ar gyfer myfyrwyr newydd yn 2014/15. A ydych yn credu bod hyn yn briodol?**

(Mae'r gyfradd cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau (RAB) yn cynnwys cymhorthdal y gyfradd llog a chost benthyciadau i fyfyrwyr nad oes modd ei hadennill.)

Ydw [ ]

Nac ydw [ ]

Ddim yn gwybod [ ]

<sup>28</sup> Awgrymwyd y posibilrwydd o gyfeirio cyllid rhan-amser tuag at rai sefydliadau ag arbenigedd rhan-amser gan CCAUC yn ei ymgynghoriad yn 2014 sef W14/33HE *Consultation on our approach to funding in 2015/16 and subsequent years*, t 6. Ar gael yn [http://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars\\_2014/W14%2033HE%20Consultation%20on%20ur%20approach%20to%20funding%20in%202015\\_16%20and%20subsequent%20years.pdf](http://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2014/W14%2033HE%20Consultation%20on%20ur%20approach%20to%20funding%20in%202015_16%20and%20subsequent%20years.pdf)

Rhowch reswm neu resymau dros eich ateb ynghyd â thystiolaeth ategol, os yw ar gael. Os ydych yn rhoi 'Nac ydw' yn ateb, byddai gan y panel adolygu ddiddordeb mewn clywed eich barn am beth sy'n briodol a pha gamau sy'n angenrheidiol.

Mae'r tâl am gyllidebu a chyfrifyddu adnoddau o ran benthyciadau israddedigion amser llawn yn debygol o fod yn is yng Nghymru nag yn Lloegr ar hyn o bryd, ond mae angen i hyn gael ei wrthbwyso yn erbyn costau'r grant ffioedd i israddedigion amser llawn. Credwn y byddai'n fuddiol i'r tâl presennol – ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr – gael ei ddadgyfuno i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser.

Yng Nghymru a Lloegr bydd y tâl yn is o ran darpariaeth ran-amser.



## Cynigion ar gyfer diwygio a modelau cyllido eraill ar gyfer y sector addysg uwch a chyllid myfyrwyr

Bydd yr Athro Diamond a'r Panel Adolygu'n nodi ac yn gwerthuso'r opsiynau cyllido posibl ar ôl i'r gwaith o gasglu'r holl dystiolaeth ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid fel rhan o'r broses adolygu ddod i ben. Yn y cyfamser, oni bai eich bod wedi nodi'n barod, os oes gennych unrhyw gynigion eraill yr hoffech eu rhannu â'r Panel Adolygu, rhowch y manylion isod.

Cynigion ar gyfer diwygio'r trefniadau presennol ar gyfer cyllido'r sector addysg uwch neu ar gyfer cyflwyno modelau cyllido eraill.	
Hoffem weld cydbwysedd o ran buddsoddi mewn dulliau astudio amser llawn a rhan-amser a'u cefnogi. O fewn hyn hoffem weld cymorth ariannol i fyfyrwyr yn targedu'r rhai sydd ei angen fwyaf.	
Rhowch fanylion yr amcanion a'r canlyniadau y gobeithir eu cyflawni yn eich cynigion.	
Cydbwysedd o ran buddsoddi mewn AU amser llawn a rhan-amser, i israddedigion ac ôlraddedigion. Ehangu mynediad i AU i bob oedran ac i grwpiau eraill â lefelau cyfranogi isel. Uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu. Datblygu economi, diwylliant a chymdeithas Cymru.	
A ydych yn rhag-weld y bydd eich cynigion yn:	
i) arbed costau	[ ]
ii) niwtral o ran cost	[ ]
iii) gofyn am fuddsoddiad ariannol ychwanegol	[ ]

## Gwybodaeth ychwanegol

Cofnodwch isod unrhyw safbwyntiau neu sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud yng nghyd-destun yr adolygiad.

### Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Cafodd Y Brifysgol Agored ei sefydlu yn 1969, gyda'i myfyrwyr cyntaf yn cofrestru yn 1971. Mae'n arwain y blaen o ran darparu cyfleoedd dysgu o bell arloesol a hyblyg ar lefel addysg uwch (AU). Mae'n agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau. Mae'n hyrwyddo cyfleoedd addysgol a chyfiawnder cymdeithasol drwy ddarparu addysg prifysgol o'r radd flaenaf i bawb sydd am gyflawni eu huchelgais a'u potensial.

Ar hyn o bryd, mae gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru tua 8,000 o fyfyrwr, sydd wedi cofrestru ar fwy na 10,000 o fodiwlau. Mae gennym fyfyrwyr ym mhob un o etholaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a ni yw prif ddarparwr addysg uwch ran-amser Cymru. Mae mwy na thri o bob pedwar o fyfyrwr Y Brifysgol Agored mewn cyflogaeth wrth astudio a chyda pholisi derbyn agored nid oes angen unrhyw gymwysterau i astudio ar lefel gradd. Mae mwy na thraean o'n hisraddedigion yng Nghymru yn ymuno â ni heb gymwysterau lefel mynediad prifysgol safonol.

Yn 2014, am y degfed flwyddyn yn olynol, daeth Y Brifysgol Agored ar y brig yng Nghymru am 'fodddhad myfyrwyr cyffredinol' yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr. Fel arweinydd byd-eang ym maes technoleg addysg, mae ein portffolio 'cynnwys agored' eang yn cynnwys unedau astudio am ddim ar OpenLearn (gan gynnwys llawer o ddeunydd sy'n berthnasol i Gymru) a chryn dipyn o gynnwys ar YouTube ac iTunesU lle rydym wedi cofnodi mwy na 67 miliwn o lawrlwythiadau. Yn 2014, gwnaeth Y Brifysgol Agored yng Nghymru lansio [OpenLearn Cymru](#), sef llwyfan dysgu ar-lein am ddim sy'n darparu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhowch deitlau gwybodaeth ychwanegol, tystiolaeth neu bapurau ymchwil rydych yn eu cyflwyno gyda'ch ymateb. (Lle y bo'n briodol, rhowch ddolenni gwe.)

Efallai y bydd yr adroddiadau isod yn rhoi gwybodaeth ychwanegol ddefnyddiol am sefyllfa addysg uwch ran-amser yn Lloegr, ac mewn rhai achosion, ledled y Deyrnas Unedig:

[HEPI, \*Flexible Learning: Wrapping Higher Education Around the Needs of Part-Time Students\* \(2013\)](#)

[Universities UK, \*The power of part-time: Review of part-time and mature higher education\* \(2013\)](#)

Oxford Economics, [Macroeconomic influences on the demand for part-time higher education in the UK](#) (2014)

[HEFCE, \*Pressure from all sides: Economic and policy influences on part-time\*](#)

[higher education \(2014\)](#)

[Clare Callender, \*The demise of part-time undergraduate higher education in England: who cares?\*, Institute of Education \(2014\)](#)

## **Cydnabyddiaeth**

Ar ran yr Athro Diamond a'r Panel Adolygu, hoffem ddiolch i chi am roi o'ch amser i gyfrannu at yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru.

## **Y camau nesaf**

Bydd yr ymatebion i'r galw am dystiolaeth yn cael eu dadansoddi a'u gwerthuso. Bydd yr ymatebion yn helpu i lywio cam nesaf yr adolygiad a bydd yn rhan bwysig o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer argymhellion yr Athro Diamond ar gyfer dyfodol cyllido addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr yng Nghymru.

## **Sut y defnyddir y safbwyntiau a'r wybodaeth y byddwch yn eu rhoi i ni**

Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan yr Athro Diamond a'r Panel Adolygu, a staff Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi'r adolygiad.

Mae'n bosibl y bydd yr Athro Diamond yn dewis cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon a/neu ddyfyniadau penodol. Mae'n bosibl hefyd y caiff yr ymatebion eu cyhoeddi'n llawn. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod y galw am dystiolaeth wedi cael ei gynnal mewn ffordd gywir. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael ei gyhoeddi, a fydddech cystal â dweud hynny wrthym yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Yna, byddwn yn eu cuddio.

Efallai y bydd enwau neu gyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi o hyd yn nes ymlaen, er nad ydym yn credu y byddai hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn i gael gweld gwybodaeth sy'n cael ei dal gan nifer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi cael ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl hefyd mewn rhai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn i gael gweld gwybodaeth y byddwn wedi ei chadw'n ôl, bydd yn rhaid i ni benderfynu a

ddylid ei rhyddhau neu beidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi eu henw a'u cyfeiriad, mae hon yn ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, efallai y bydd rhesymau pwysig weithiau pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er eu bod wedi gofyn iddynt beidio â chael eu cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am eu safbwyntiau cyn i ni wneud y penderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**Ticiwch yma os byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich enw a'ch cyfeiriad gyda'r ymateb:**

## **Atodiad A: Cylch gorchwyl y Panel Adolygu**

Bydd y Panel Adolygu'n cynnwys Cadeirydd ac aelodau'r panel sy'n arbenigwyr profiadol yn eu maes ac sydd â dealltwriaeth drylwyr o faterion yn ymwneud â chyllido'r sector addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr.

### **Rôl**

Gofynnir i'r panel gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r trefniadau cyllido addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr. Bydd yn dechrau ar ei waith yn y Gwanwyn 2014, gan baratoi adroddiad ar gyfer y Gweinidog Addysg a Sgiliau erbyn mis Medi 2016. Disgwylir i'r adroddiad hwnnw gynnwys cyngor clir, ac argymhellion y mae'r gost o'u gweithredu wedi ei hamcangyfrif, ar gyfer cyllido'r sector addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr yng Nghymru yn y dyfodol.

Bydd yn rhaid i argymhellion y panel fod yn ymarferol, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.

### **Ffocws**

Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â'r canlynol:

- hyrwyddo symudedd cymdeithasol a sicrhau bod mwy o bobl yn cael y cyfle i fanteisio ar addysg uwch
- hyrwyddo cyfleoedd dysgu ôl-radd yng Nghymru, gan gynnwys ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru
- cyllido addysg uwch yng ngoleuni'r cyfyngiadau parhaus ar wariant cyhoeddus
- polisiâu ffioedd dysgu ar gyfer addysg ran-amser ac addysg amser llawn
- polisi a threfniadau cyllido addysg uwch ar draws ffiniau
- trefniadau cyllid myfyrwyr (gan gynnwys cymorth cynhaliath ar gyfer myfyrwyr addysg uwch ac addysg bellach, gyda phwyslais ar gynorthwyo dysgwyr o gefndiroedd incwm isel a chymunedau mwyaf difreintiedig Cymru)
- dulliau cyllido gwariant a reolir yn flynyddol (AME), cyllid sydd bron yn arian parod a chyllid nad yw'n arian parod)
- rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o ran gweithredu trefniadau cyllid myfyrwyr
- dyled myfyrwyr.

## Prif ystyriaethau

Bydd yn rhaid i'r adolygiad ystyried opsiynau a materion cyllido ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir, gan gynnwys unrhyw botensial ar gyfer gweithredu a hyrwyddo cynlluniau cynilo er mwyn creu model mwy cynaliadwy ar gyfer cyllido addysg uwch yn y dyfodol, gan helpu i leihau lefelau dyled myfyrwyr.

Hefyd bydd angen i'r adolygiad ystyried:

- y ddeddfwriaeth bresennol a'r opsiynau ar gyfer ei diwygio
- goblygiadau ariannol unrhyw fodolau arfaethedig o safbwynt Llywodraeth Cymru, Trysorlys ei Mawrhydi, y myfyrwyr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r sector addysg uwch yng Nghymru
- systemau cyflenwi gweithredol sy'n gysylltiedig â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a chyrrff eraill yn y DU
- dulliau eraill o weithredu polisi sy'n cael eu defnyddio gan lywodraethau eraill y DU neu lywodraethau tramor
- y goblygiadau trawsffiniol ar gyfer unrhyw newidiadau polisi a gynigir ar gyfer Cymru (gan gynnwys unrhyw broblemau a allai godi o ran cymhwysedd deddfwriaethol)
- y sgiliau y mae eu hangen yng Nghymru
- darpariaeth ôl-radd a phryderon a/neu ofynion y sector diwydiant
- i ba raddau y mae'r polisi a threfniadau cyllido presennol yn sicrhau bod mwy o bobl yn cael y cyfle i fanteisio ar addysg uwch, ac unrhyw beth arall y gellid ei wneud i wella'r sefyllfa
- datblygiadau perthnasol yn y sector addysg bellach, er enghraifft addysg uwch mewn gweithgarwch addysg bellach.

## Dulliau gweithredu

Bydd y panel yn casglu ac yn gwerthuso'r data a'r ymchwil sydd ar gael, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth arall. Mae'n bosibl y bydd angen i'r panel gomisiynu ymchwil i lenwi'r bylchau yn y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd angen gweithio'n agos â rhanddeiliaid.

Bydd yn rhaid i'r panel roi sylw dyledus i flaenoriaethau pellgyrhaeddol Llywodraeth Cymru o ran addysg uwch yng Nghymru, fel y'u nodir yn y *Datganiad polisi ar addysg uwch* (Mehefin 2013).

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/highereducation/policy-statement/?skip=1&lang=cy>.

## **Llywodraethu a ffyrdd o weithio**

- Disgwylir i aelodau'r panel gadw at y saith egwyddor ar gyfer bywyd cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd, a dangos arweinyddiaeth).
- Rhaid i unrhyw gasgliadau ac argymhellion fod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn ddiduedd, ac wedi eu hystyried yn drylwyr ac yn fanwl.
- Cedwir cofnodion o gyfarfodydd a gweithgareddau'r Panel Adolygu. Fodd bynnag, cynhelir trafodaethau o dan brotocol cyfrinachedd er mwyn hwyluso dadl ddiffuant ac agored.

## Atodiad B: Aelodau'r Panel Adolygu

- **Yr Athro Syr Ian Diamond (Cadeirydd):** Is-Ganghellor Prifysgol Aberdeen.
- **Yr Athro Colin Riordan:** Llywydd ac Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd a Chadeirydd Prifysgolion Cymru.
- **Rob Humphreys:** Cyfarwyddwr Y Brifysgol Agored yng Nghymru, ac Is-Gadeirydd Prifysgolion Cymru.
- **Beth Button:** Llywydd, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) Cymru.
- **Yr Athro Sheila Riddell:** Cyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil i Gynhwysiant ac Amrywiaeth mewn Addysg, Prifysgol Caeredin.
- **Dr Gavan Conlon:** Partner yn London Economics ac arbenigwr ym maes economeg addysg.
- **Glyn Jones OBE:** Prif Weithredwr Grŵp Llandrillo Menai ac Aelod o Fwrdd ColegauCymru.
- **Ed Lester:** Cyn Brif Weithredwr y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr. Ar hyn o bryd mae'n Brif Gofrestrydd Tir ac yn Brif Weithredwr y Gofrestrfa Tir.
- **Gary Griffiths:** Pennaeth Rhaglenni Gyrfaoedd Cynnar Airbus UK.
- **Yr Athro Michael Woods:** Athro ym maes Daearyddiaeth Ddynol a Chyfarwyddwr Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ym Mhrifysgol Aberystwyth.
- **Yr Athro David Warner:** Cyn Is-Ganghellor Prifysgol Fetropolitan Abertawe. Ar hyn o bryd, mae'n Uwch Gymrawd Ymchwil yng Ngholeg Harris Manchester, Rhydychen.
- **Gareth Jones OBE:** Cyn brifathro Ysgol John Bright ac Aelod Cynulliad Plaid Cymru dros Gonwy ac Aberconwy. Cyn Gadeirydd Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- **Dr David Blaney:** Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac Aelod o'r Cyngor hwnnw (sylwedydd swyddogol).